

Rhagair

Mae'r arolygiad hwn o waith gyda throseddwy'r ifanc yng Nghaerdydd yn un o nifer fach o arolygiadau ar y cyd llawn yr ydym yn eu cynnal yn flynyddol gyda chydweithwyr o'r arolygiaethau cyfiawnder troseddol, gofal cymdeithasol, iechyd a dysgu a sgiliau.

Fe wnaethom ddewis arolygu yng Nghaerdydd yn bennaf oherwydd bod eu perfformiad yn dangos y perfformiad ail-euogfarnu ar ôl 3 mis a 12 mis isaf yng Nghymru dros gyfnod hir. Dangosodd y ¹ data aildroseddau a gyhoeddwyd ddiweddaraf ostyngiad o'r flwyddyn flaenorol i 41.8% ond roedd yn dal i fod yn uwch na'r ffigwr cyfartalog diweddaraf ar gyfer Cymru a Lloegr sef 37.9%. Roedd cyfraddau amledd aildroseddau a'r defnydd o'r ddalfa yn gostwng hefyd ond yn dal yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr.

Gwelsom fod y cyfraddau aildroseddau a chadw yn y ddalfa wedi parhau i ostwng ers y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd, ac y gallai'r cyfraddau, yn rhannol o leiaf, gael eu priodoli i amrywiadau naturiol mewn meintiau sampl cymharol fach. Roedd Gwasanaeth Troseddau Ieuencid (GTI) Caerdydd yn cael ei staffio gan grŵp o staff profiadol ac ymroddedig a'i gefnogi gan waith partneriaeth effeithiol. Ond fe wnaethom nodi lle i wella yn ansawdd y gwaith gyda'r plant a'r bobl ifanc. Roedd angen arweinyddiaeth a goruchwyliaeth gryfach ar bob lefel yn y sefydliad yn ogystal. Roedd gan y GTI ystod sylweddol o ymyriadau, ond nid oedd digon o oruchwyliaeth strategol a chynllunio ar y gwasanaeth a ddarperir, a dim digon o fonitro ac o werthuso eu heffeithiolrwydd o ran cyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r plant a'r bobl ifanc.

Bwriedir i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn gynorthwyo GTI Caerdydd yn ei welliant parhaus drwy ganolbwyntio ar feysydd allweddol penodol.



Y Fonesig Glenys Stacey

Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi

Mai 2016

Dyfarniadau allweddol

Lleihau aildroseddau	★★★★☆
Diogelu'r cyhoedd	★★★★☆
Diogelu plant a phobl ifanc	★★★★☆
Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni	★★★★☆
Llywodraethu a phartneriaethau	★★★☆☆
Ymyriadau i leihau aildroseddau	★★★★☆

¹ Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2015 yn seiliedig ar gyfraddau aildroseddau deuaidd ar ôl 12 mis ar gyfer carfan Ionawr 2013 - Rhagfyr 2013. Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Crynodeb

Lleihau aildrosteddu

Roedd y gwaith cyffredinol i leihau aildrosteddu yn foddhaol. Roedd yr adroddiadau llys o safon dda, ac roedd asesiadau o achosion trosedd yn amserol a chynhwysfawr. Fe wnaethom ganfod gwaith o ansawdd arbennig o dda mewn dedfrydau o garchar, ac wrth reoli'r broses o drosglwyddo achosion i wasanaethau prawf oedolion. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o blant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd cadarnhaol, ond roedd angen mwy o sylw i gynnal canlyniadau cadarnhaol ar ôl i'r oruchwyliaeth ddod i ben. Nid oedd lawer o dystiolaeth o waith gyda dioddefwyr neu waith cyfiawnder adferol.

Amddiffyn y cyhoedd

Roedd gwaith cyffredinol i amddiffyn y cyhoedd a dioddefwyr gwirioneddol neu bosibl yn foddhaol. Rhoddodd adroddiadau i'r llys esboniadau clir o'r risg y mae plant a phobl ifanc yn ei beri i bobl eraill. Roedd asesiadau o risg o niwed yn ddigonol, ond roedd cynllunio i reoli'r risg o niwed a berir yn annigonol mewn mwy na thraean yr achosion. Nid oedd adolygiadau a chynlluniau o asesiadau risg o niwed yn cael eu gwneud bob amser, ac nid oeddent bob amser yn ddigonol pan fyddent yn cael eu gwneud. Roedd gan reolwyr achos ddealltwriaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau i reoli risg o niwed, ond roedd goruchwyliaeth y rheolwyr o waith i reoli risg o niwed yn annigonol. Nid oedd gan swyddogion heddlu'r GTI fynediad at ViSOR² a gallent fod wedi gwneud mwy o ddefnydd o gyswllt â thimau plismona cymdogaeth.

Amddiffyn plant a phobl ifanc

Roedd gwaith cyffredinol i amddiffyn plant a phobl ifanc a'u gwneud yn llai agored i niwed yn foddhaol. Roedd adroddiadau i'r llys ac asesiadau dechreuol o ddiogelu a bregusrwydd yn dda, ond roedd ansawdd y cynllunio i ymdrin â pherygl mawr yn annigonol. Nid oedd diogelu a bregusrwydd bob amser yn cael eu hadolygu yn ôl yr angen. Ond fe welwyd cyswllt da a chydweithio gyda'r Gwasanaethau Plant. Roeddem yn pryderu am y mynediad cyfyngedig at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc. Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr o waith i reoli diogelu a bregusrwydd yn annigonol.

Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni

Roedd gwaith cyffredinol i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni yn foddhaol. Roedd gan y staff wybodaeth dda am y plant a'r bobl ifanc roeddent yn gweithio â hwy, a diddordeb ynddynt. Roeddent yn rhoi sylw da i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i gydweithredu. Roedd lefelau da o gyswllt â'r plant a'r bobl ifanc a lefelau da o ymweliadau cartref. Mewn rhai achosion, roedd gofynion cyfyngol mewn gorchmynion ymddygiad troseddol yn peryglu troseddoli'r plentyn neu'r person ifanc ymhellach. Nid oedd trefniadau i ymateb i anghenion siaradwyr Cymraeg yn ddigon da.

Llywodraethu a phartneriaethau

Yn gyffredinol, roedd effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a phartneriaeth yn anfoddhaol. Roedd diffyg arweinyddiaeth effeithiol flaenorol wedi gwanhau Bwrdd Rheoli'r GTI. Nid oedd wedi rhoi digon o gefnogaeth i reolwr y GTI i gryfhau tîm rheoli'r GTI i gyflawni gwelliannau mewn arfer. Ychydig iawn o ddefnydd a oedd o ddata perfformiad a gwybodaeth leol i dargedu darparu

² Mae ViSOR yn gronfa ddata gyfrinachol genedlaethol sy'n cefnogi Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA). Mae'n hwyluso rhannu gwybodaeth yn effeithiol a chudd-wybodaeth am droseddwyd treisgar a rhywiol rhwng tair asiantaeth Awdurdodau Cyfrifol MAPPA (yr heddlu, y gwasanaeth prawf a charchardai).

gwasanaeth a gwella canlyniadau, ac roedd prosesau sicrhau ansawdd yn annigonol i gefnogi gwelliannau mewn ymarfer proffesiynol. Roedd y GTI yn cael ei staffio gan grŵp sefydlog a phrofiadol o ymarferwyr, ac roedd gwaith partneriaeth da wedi cyflwyno rhai cynlluniau ymarfer effeithiol.

Ymyriadau i leihau aildroseddu

Yn gyffredinol roedd rheoli a darparu ymyriadau i leihau aildroseddu yn foddhaol.

Roedd gan reolwyr achos fynediad at adnoddau ac ymyriadau digonol, ac roedd staff yn cynllunio a darparu gwasanaethau i safon uchel. Roedd canolfan bresenoldeb iau wedi'i hen sefydlu a'i hintegreiddio'n llawn o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid. Roedd ymarferwyr yn cyfarwyddo'r gwaith o ddarparu a datblygu ymyriadau. Nid oedd unrhyw strategaeth neu bolisi cyffredinol i bennu ystod a chynnwys y ddarpariaeth, ac ni fu unrhyw ddadansoddiad o anghenion diweddar, empeiraidd o lwyth achosion y GTI.

Argymhellion

Dylai gwaith gwella ar ôl yr arolygiad ganolbwyntio'n benodol ar gyflawni'r canlyniadau canlynol o fewn 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn:

Dylai Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r GTI sicrhau bod:

1. trefniadau llywodraethu, ar bob lefel, yn darparu cymorth, craffu a her briodol i waith y GTI a'i ganlyniadau
2. gwaith y GTI yn cael ei dargedu, yn bodloni angen lleol, ac yn cael ei sbarduno gan strategaeth glir a chynllun cyflawni effeithiol
3. digon o fynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
4. digon o gyfnewid gwybodaeth rhwng y GTI a gwasanaeth yr heddlu.

Dylai Rheolwr y GTI sicrhau bod:

5. y gwaith o gynllunio ac adolygu gwaith i reoli'r risg o niwed a berir i eraill o ansawdd digonol
6. cynllunio ac adolygu gwaith i reoli diogelu a bregusrwydd plant a phobl ifanc o ansawdd digonol
7. goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr o ansawdd y gwaith i reoli risg o niwed i eraill, a diogelu a bregusrwydd plant a phobl ifanc
8. y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid yn bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg yn llawn, ac yn hyrwyddo gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer gwaith.

Noder - drwy'r adroddiad hwn i gyd cafodd enwau y cyfeirir atynt yn yr enghreifftiau o arfer eu newid i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.

Cynnwys

THEMA 1: LLEIHAU AILDROSEDDU	X
THEMA 2: AMDDIFFYN Y CYHOEDD	X
THEMA 3: AMDDIFFYN Y PLENTYN NEU'R PERSON IFANC	X
THEMA 4: SICRHAU BOD Y DDEDFRYD YN CAEL EI CHYFLAWNI.....	X
THEMA 5: LLYWODRAETHU A PHARTNERIAETHAU	X
THEMA 6: YMYRIADAU I LEIHAU AILDROSEDDU	X

ATODIAD 1 CEFNDIR YR AROLYGIAD

ATODIAD 2 CYDNABYDDIAETHAU

Thema 1: Lleihau aildroseddu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Gan mai diben y system cyfiawnder ieuencid yw atal troseddu gan blant a phobl ifanc yr ydym yn disgwyl i bartneriaid cyfiawnder ieuencid gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus drwy gyflawni asesu a chynllunio o ansawdd da, cyflwyno ymyriadau priodol ac arddangos arweiniad cadarnhaol a rheolaeth effeithiol.

Sgôr asesu achosion

O fewn yr asesiad achos, yn gyffredinol roedd 70% y gwaith i leihau aildroseddu yn cael ei wneud yn ddigon da.

Canfyddiadau Allweddol

1. Roedd yr adroddiadau llys o safon dda.
2. Roedd asesiadau o achosion troseddu yn amserol a chynhwysfawr.
3. Roedd cynllunio dedfrydau yn cynnwys y pethau iawn ond roedd angen iddo fod yn fwy eglur ac wedi'i ffocysu'n well.
4. Roedd gwaith gan staff y GTI yn ystod dedfrydau o gaethiwed i blant neu bobl ifanc yn dda, ac roedd cyfnodau o garchar a chyfnodau cymunedol wedi'u hintegreiddio'n dda.
5. Ychydig o waith a welsom gyda dioddefwyr neu waith cyfiawnder adferol.
6. Roedd cydweithio effeithiol iawn rhwng y GTI a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i sicrhau bod achosion yn trosglwyddo'n llyfn rhwng y ddau sefydliad.
7. Roedd adolygiadau o asesiadau a chynlluniau yn ddigonol pan oeddent yn cael eu gwneud, ond dylai mwy o'r achosion fod wedi cael y rhain.
8. Yn hanner yr achosion lle y gallem wneud dyfarniad, roedd y plant a'r bobl ifanc yn gwneud cynnydd cadarnhaol.
9. Roedd ar rai achosion angen mwy o sylw er mwyn cynnal canlyniadau cadarnhaol ar ôl i'r oruchwyliaeth ddod i ben.

Esboniad o'r canfyddiadau

1. Roeddem yn falch o weld yn y mwyafrif o achosion a arolygwyd gennym fod y rheolwr achos wedi gwneud ymdrech ddigonol i ddeall pam roedd y plentyn neu'r person ifanc yn troseddu a beth allai helpu i leihau eu troseddu. Mewn mwyafrif helaeth o achosion, darparwyd adroddiad o ansawdd da i'r llys, a darparwyd gwybodaeth ddigonol i alluogi dedfrydwyr i ddedfrydu plant a phobl ifanc yn briodol.
2. Dywedodd dedfrydwyr fod adroddiadau llafar yn dda ar y cyfan ac yn darparu'r wybodaeth oedd ei hangen, ac nad oedd unrhyw anhawster gydag egluro unrhyw bwyntiau pellach yn y gwrandawriad llys. Fe wnaethant sylwi bod safon yr adroddiadau ysgrifenedig wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf, a'u bod bellach yn cynnwys llawer mwy o wybodaeth.
3. Ond fe wnaethom ganfod nad oedd rhai adroddiadau ysgrifenedig yn ddigon dadansoddol, neu y gallent fod wedi bod yn fwy cryno. Mewn rhai achosion, roeddent yn rhoi asesiad annigonol o'r risg o niwed a berid gan y plentyn neu'r person ifanc i bobl eraill, neu o'u bregusrwydd eu hunain. Nid oedd llawer o dystiolaeth bod cudd-wybodaeth yr heddlu yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynnwys adroddiadau cyn dedfrydu neu adroddiadau panel am

orchmynion cyfeirio. Roedd proses sicrhau ansawdd sefydledig ar waith ar gyfer adroddiadau llys, ond mewn rhai achosion nid oedd y pwyntiau hyn wedi eu codi.

4. Ym mhob achos bron, roedd asesiad cychwynnol amserol ar waith ar ddechrau'r ddedfryd. Roedd y rhan fwyaf wedi archwilio amrywiaeth eang o ffactorau a allai fod wedi ymwneud â throdeddu'r plentyn neu berson ifanc. Ond mewn rhai achosion, nid oedd asesiad da o'r ffactorau eu hunain wedi ei gysylltu'n benodol â'u heffaith debygol ar y tebygrwydd y byddai'r plentyn neu berson ifanc yn troseddu.
5. Y meysydd mwyaf cyffredin lle'r oedd angen mwy o ymchwiliad oedd dylanwad y teulu a pherthynas pobl â'i gilydd, a chamddefnyddio sylweddau. Mewn rhai achosion, roedd asesiad annigonol o anghenion emosiynol neu iechyd meddwl, arddulliau dysgu, ac anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mewn llawer o achosion nid oedd yr holiadur hunanasesu 'Beth ydych chi'n ei feddwl' wedi cael ei ddefnyddio i gael barn y plentyn neu'r person ifanc am eu sefyllfa.
6. Roedd sesiynau asesu iechyd cyffredinol yn cael eu cyflwyno gan weithiwr iechyd y GTI gan ddefnyddio fframwaith yr Offeryn Asesu Iechyd Cynhwysfawr wedi'i addasu a oedd yn cwmpasu pob agwedd ar iechyd corfforol, rhywiol a meddyliol. Roedd presenoldeb yn wirfoddol, ond roedd yn rhan o broses glir i alluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at asesiad iechyd cynhwysfawr a gwasanaethau iechyd dilynol yn ôl yr angen.
7. Ar gyfer gwaith yn y gymuned, roedd cynllunio i leihau aildroseddu yn ddigonol yn y mwyafrif helaeth o achosion. Roedd cynllunio yn arbennig o gryf mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE), camddefnyddio alcohol, ac iechyd corfforol. Roedd cynllunio'n dda hefyd mewn perthynas ag iechyd meddwl ac emosiynol er bod angen gwella'r modd yr oedd hwn yn cael ei asesu. Mewn rhai achosion, gallai mwy o sylw fod wedi cael ei roi i drefniadau byw'r plentyn neu'r person ifanc a'u cymdogaeth leol, eu teulu a'u perthynas â'i gilydd, a'u cymhelliant dros newid. Roedd angen i amcanion cynllunio gael eu mynegi yn gliriach. Roedd rhai yn fformiwlâig yn hytrach na phersonol o ran eu cynnwys ac nid oeddent wedi cael eu hysgrifennu mewn iaith y byddai llawer o blant neu bobl ifanc yn ei deall.
8. Fe wnaethon ni arolygu naw achos o ddedfryd yn y ddalfa ac yn y rhan fwyaf ohonynt roedd digon o gynllunio ar gyfer gwaith i leihau aildroseddu drwy gydol y rhan o'r ddedfryd a dreulid yn y carchar. Mewn llawer o'r achosion, gwelsom fod staff y GTI yn cymryd rhan weithredol yn y broses.
9. Roedd cyfarfod panel y gorchmynion cyfeirio a welsom fel rhan o'r arolygiad wedi'i strwythuro ac yn effeithlon, ac yn cael ei gynnal mewn arddull anffurfiol a chynhwysol. Roedd y rheolwr achos ac aelodau'r panel gwirfoddolwyr yn ymddangos yn brofiadol, hyderus a brwdfrydig. Arweiniodd y rheolwr achos yr achos, fe wnaeth roi gwybodaeth i'r panel a daeth â'r cyfarfod i ben gyda chrynodeb priodol o'r materion a wynebid, a'r penderfyniadau a wnaed. Roedd contractau yn cael eu llofnodi ac roedd dyddiadau'r panel yn y dyfodol yn cael eu gosod. Ond yn gyffredinol nid oedd manylion cyfarfodydd y panel wedi eu cofnodi'n dda yn y system rheoli achosion, ac mewn rhai achosion nid oedd nodiadau ysgrifenedig yn cael eu copio i'r system electronig.
10. Ar y cyfan, roedd y gwaith a oedd yn cael ei wneud i ymdrin ag aildroseddu o ansawdd digonol mewn dwy ran o dair o'r achosion. Mewn achosion eraill nid oedd unrhyw strwythur clir wrth gyflwyno'r gwaith, roedd yr amcanion yn aneglur, neu nid oedd digon o ymdrech yn cael ei gwneud i gwblhau'r gwaith. Gallai hyn yn rhannol ymwneud â diffygion yn y cynllunio fel y nodwyd eisoes.

Dyfyniad gan blentyn neu berson ifanc

"Ydyn, maen nhw'n gofyn cwestiynau i mi ac yn gofyn beth fyddwn i yn ei wneud. Bydd yr hyfforddiant a phethau rydw i wedi ei wneud yn fy helpu i beidio ag aildroseddu".

11. Roedd ansawdd da gwaith mewn dedfrydau o garchar yn gryfder neilltuol, ac ym mhob achos perthnasol ond un roedd y cyfnod dan glo a'r cyfnod cymunedol yn cael eu darparu fel un ddedfryd, integredig. Yn y mwyafrif o achosion, gwelsom dystiolaeth o gydweithio effeithiol, a bod gweithgaredd i ymdrin ag aildroseddu wedi cael ei wneud tra roedd plant a phobl ifanc yn y ddalfa. Mewn llawer o achosion roedd hyn yn cael ei gefnogi gan berthynas waith dda gyda'r Sefydliad Troseddwy Ifanc lleol. Cymerodd staff y GTI fantais ar ei leoliad cymharol agos.

Enghraifft o arfer nodedig

Roedd ymgynghorydd gyrfaedd GTI yn gweithio'n dda gyda dysgwyr ifanc yn Sefydliad Troseddwy Ifanc Parc, i'w helpu i gynllunio eu dewisiadau o ran dilyniant cyn cael eu rhyddhau o'r ddalfa. Mynychodd hi gyfarfodydd cynllunio gorchymnion cadw a hyfforddi yn y ddalfa a chyfarfu â phlant a phobl ifanc i wella eu hymwybyddiaeth o'r farchnad lafur a'u dealltwriaeth o'r hyn yr oedd ar gyflogwyr ei angen. Mewn un achos, fe wnaeth gwaith y cynghorydd gyrfaedd hwn wrth gynllunio dilyniant alluogi dysgwr i fynychu cyfweiliad coleg o dan Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro.

12. Gwelsom yn y mwyafrif o achosion lle'r oedd ei angen, fod gwaith wedi'i wneud i ymdrin ag Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, perthnasoedd teuluol a phersonol, a meddwl ac ymddygiad. Ond roedd ymyriadau i helpu gyda ffordd o fyw, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl ac emosiynol wedi eu cyflwyno mewn dim ond hanner yr achosion lle'r oedd hynny'n angenrheidiol. Mewn nifer fach o achosion gellid bod wedi rhoi mwy o sylw i'r posibilrwydd o ddefnyddio dull neu weithgaredd cyfiawnder adferol. Ychydig o waith oedd yn ymwneud â dioddefwyr a welsom yn yr achosion a arolygwyd gennym.
13. Nid oedd gan y GTI strategaeth i ganolbwyntio sylw staff ar y berthynas bwysig rhwng gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael a lleihau ymddygiad aildroseddol. Nid oedd cynllun clir oedd yn canolbwyntio sylw'r staff ar bwysigrwydd caffael medrau sylfaenol da gan blant a phobl ifanc, ac ni wnaed unrhyw werthusiad o p'run ai oedd eu sgiliau'n gwella yn ystod eu cysylltiad â'r GTI.
14. Ond yr oedd y cynghorwyr gyrfa a gafodd eu secondio i'r GTI wedi helpu'r plant a'r bobl ifanc wella eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o gyfleoedd ar gyfer Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth ac fe wnaethant roi cyngor defnyddiol i'w helpu i gynllunio eu cynnydd tuag at gyflogaeth. Roeddent yn cefnogi plant a phobl ifanc wrth iddynt gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Roedd eu hasesiadau o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn drylwyr ac yn glir, gan roi cyngor da i ddarparwyr gwasanaethau ar sut i drefnu darpariaeth i wella eu siawns o lwyddo.

Dyfyniadau gan blant a phobl ifanc

"Ie, os oes angen swydd arna' i, yna fe fyddan nhw yn fy helpu, maen nhw yn eich helpu i ddod o hyd i swydd a phethau, ac os oes angen i chi fynd ar gwrs neu unrhyw beth yna fe fyddan nhw yn eich helpu. Rydw i'n gwneud cwrs ar y funud - dysgu gydol oes, hyd nes i mi ddod o hyd i leoliad gwaith, ond maen nhw'n helpu gyda hynny hefyd. Ar y diwedd fe ga' i gymhwyster ffurfiol. Felly rydw i'n hapus â'r cymorth y maen nhw wedi'i roi i mi ac yn teimlo eu bod yn cymryd fy anghenion i ystyriaeth."

"Fe wnaeth [y GTI] fy rhoi yn ôl yn yr ysgol. Mae'n well i mi ydy ... yn fy nghadw allan o drwbl. Maen nhw yn mynd i fy rhoi i yn y coleg."

"Fe wnaeth [y GTI] fy helpu i chwilio am swydd, chwilio am goleg newydd, hobiau i'w gwneud yn lle loetran ar y stryd."

Enghraifft o arfer nodedig

Roedd y cynghorwyr gyrfa yn gweithio'n dda gyda darparwyr hyfforddiant a lleoliadau gwaith lleol. Er enghraifft, roeddent wedi sicrhau cytundeb gyda safle bwyd cyflym cenedlaethol i sicrhau cyfweiliad gwaith i ddysgwyr a gyfeiriwyd gan y GTI.

15. Roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n dda am anghenion dysgu plant a phobl ifanc a'u cyflawniadau rhwng gweithwyr y GTI. Ond nid oedd gwybodaeth am gyflawniadau yn cael ei chasglu mewn ffordd a oedd yn ei gwneud yn bosibl i wneud dadansoddiad systematig neu mewn modd oedd yn helpu pob aelod staff i ddefnyddio hyn yn ddigon da i gynllunio dilyniant plentyn neu berson ifanc. Mewn rhai achosion, nid oedd yr wybodaeth yn cael ei rhannu yn ddigon da gyda phartneriaid addysg, i'w galluogi i gynllunio dysgu'r plant a'r bobl ifanc yn effeithiol.
16. Roedd y GTI yn cyflogi gweithiwr iechyd a gweithiwr camddefnyddio sylweddau a oedd yn gweithio o fewn tîm ymyriadau dwys. Roedd trefniadau priodol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth am faterion iechyd rhwng staff y GTI. Ond nid oedd unrhyw asesiad systematig o iechyd rhywiol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc.
17. Roedd un o'r swyddogion prawf a secondiwyd yn arbenigo mewn gwaith pontio ac yn goruchwylio'r holl achosion hynny oedd yn debygol o gael eu trosglwyddo i'r gwasanaethau prawf oedolion yn ystod eu gorchymyn cyfredol. Roedd y dull hwn yn cefnogi cydweithio effeithiol iawn rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) i sicrhau bod achosion yn trosglwyddo'n llyfn rhwng y ddau sefydliad. Lle nad oedd ond cyfnod byr o oruchwyliaeth ar ôl y tu hwnt i 18fed pen-blwydd y person ifanc roedd yr achos yn aros gyda'r gweithiwr pontio, ond fel arall roedd yn cael ei drosglwyddo i swyddog yn yr NPS neu'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC).

Enghraifft o arfer nodedig

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom sesiwn wedi'i pharatoi a'i chyflwyno'n dda gan y gweithiwr trosglwyddo, gyda pherson ifanc a fyddai'n fuan yn cael ei drosglwyddo i'r gwasanaethau prawf oedolion. Roedd deunyddiau safonol yn cael eu defnyddio i sicrhau bod holl elfennau angenrheidiol y sesiwn wedi cael sylw. Roedd y pwyslais ar adolygu'r 'pellter a deithiwyd' gan y person ifanc pan oedd yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth yn y GTI. Roedd yn ceisio adeiladu ar y gwaith hwnnw, a gosod agenda seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Roedd yn helpu i'w baratoi am y newid yn ffocws y gwaith gyda phrawf, a'r diwylliant a'r dull gwahanol y gallai eu disgwyl yn ystod goruchwyliaeth.

18. Mewn bron i draean yr achosion cymunedol nid oedd yr asesiadau a'r cynlluniau wedi cael eu hadolygu yn ôl y gofyn, ond roedd y rhan fwyaf o adolygiadau yn amserol ac yn ddigonol yn yr achosion lle roeddent wedi eu gwneud. Roedd y cofnod o rai adolygiadau yn fyr iawn ac nid oeddent yn cynnwys unrhyw ddiweddiariad o'r dadansoddiad cychwynnol. Nid oedd rhai wedi cael eu gwneud yn dilyn newid yn amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc.
19. Mewn traean o'r achosion ni wnaethom ganfod tystiolaeth bod ymyriadau wedi cael eu darparu yn gyson â'r anghenion a nodwyd neu'r cynllun ymyrryd ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, neu fod y gwaith o'i gyflwyno wedi cael ei adolygu yn ddigonol. Mewn llawer

o achosion, roedd digon o gynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â rhai o'r ffactorau i leihau aildroseddu, ond yn aml roedd angen mwy o gynnydd mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau ac iechyd emosiynol a meddyliol.

20. Mewn mwy na thraean o'r achosion lle yr oedd yn berthnasol, gallai mwy o sylw fod wedi cael ei roi i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn gynaliadwy ar ôl i'r ddedfryd ddod i ben. Mewn rhai achosion, nid oedd unrhyw gynllunio ar gyfer ymadael, ac o ganlyniad roedd diffyg atgyfeirio neu gyfarwyddo at asiantaethau neu wasanaethau eraill.
21. Roedd gan y GTI ddau swyddog cymorth adsefydlu integredig a'u prif swyddogaeth oedd darparu a chefnogi'r gwaith o gyflwyno ymyrraeth ar draws ystod o ddisgyblaethau i ailsefydlu plant a phobl ifanc yn llwyddiannus. Roeddem yn falch o ganfod, er mai o fewn y tim ymyrraeth ddwys yr oedd y gefnogaeth hon, ei bod ar gael i bob achos statudol lle'r oedd ei angen, ac roedd ar gael am hyd at chwe mis ar ôl diwedd goruchwyliaeth statudol os oedd angen.
22. Yn yr achosion a arolygwyd gennym roedd yn ymddangos bod gostyngiad wedi bod yn amllder a difrifoldeb y troseddu yn hanner yr achosion lle roedd yn bosibl gwneud dyfarniad. Yn yr un modd, roeddem yn meddwl bod y plentyn neu'r person ifanc yn llai tebygol o aildroseddu yn hanner yr achosion a archwiliwyd gennym. Dim ond cyfran fach oedd yn ymddangos yn fwy tebygol o aildroseddu. Gallai mwy o bwyslais ar gynllunio effeithiol a sicrhau bod ymyriadau yn cael eu darparu arwain at fwy o lwyddiant yn y maes hwn.

Dyfyniadau gan rieni/gofalwyr

"Mae o [eu mab] yn fwy aeddfed ac yn sylweddoli'r pethau y mae wedi eu gwneud, mae'r cyfan fel pe bai wedi clicio i'w le efo fo yn awr. [Mae'r] GTI wedi chwarae rhan fawr yn hynny."


"Mae o [eu mab] wedi tawelu llawer, gallwch gael sgwrs gydag o nawr heb iddo golli ei dymer, mae o fel person gwahanol."

23. Yn y rhan fwyaf o achosion, gwelsom gydbwysedd priodol wrth gyflwyno gwaith gyda'r plentyn neu'r person ifanc rhwng lleihau aildroseddu, rheoli risg o niwed ac ymdrin â bregusrwydd.

Crynodeb o'r data

Mae'r siart canlynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd wrth arolygu achosion. [Noder: cafodd 35 achos eu harolygu. Ond efallai na fydd cyfanswm yr atebion yn hafal i hyn, oherwydd efallai nad oedd rhai cwestiynau yn berthnasol i bob achos]

Lleihau Aildroseddu



Thema 2: Amddiffyn y Cyhoedd

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae gan ddiodefwr, a diodefwr posibl, troseddau yr hawl i ddisgwyl bod popeth rhesymol yn cael ei wneud i reoli'r risg o niwed a achosir gan blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu. Disgwylwn weld asesu a chynllunio o ansawdd da a chyflwyno ymyriadau priodol, ac arweinyddiaeth gadarnhaol, rheoli effeithiol a gwaith partneriaeth sy'n lleihau'r risg o niwed i eraill.

Sgôr asesu achosion

O fewn yr asesiad achos, yn gyffredinol roedd 70% y gwaith i ddiogelu'r cyhoedd yn cael ei wneud yn ddigon da.

Canfyddiadau allweddol

1. Roedd adroddiadau i'r llys yn rhoi esboniadau clir o'r risg y mae plant a phobl ifanc yn ei beri i eraill.
2. Roedd asesiadau o risg o niwed yn ddigonol.
3. Roedd cynllunio i reoli'r risg o niwed a berid yn annigonol mewn mwy nag un rhan o dair o'r achosion.
4. Nid oedd adolygiadau o asesiadau risg o niwed a chynlluniau yn cael eu gwneud bob amser, ac nid oeddent yn ddigonol pan oedden nhw.
5. Roedd gan reolwyr achos ddealltwriaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau i reoli risg o niwed.
6. Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr o waith i reoli risg o niwed yn annigonol.
7. Nid oedd gan swyddogion heddlu'r GTI fynediad at VISOR a gallent fod wedi gwneud mwy o ddefnydd o gyswllt â thimau plismona cymdogaeth.


Esboniad o'r canfyddiadau

1. Roedd adroddiadau a gynhyrchwyd ar gyfer y llys yn cynnwys esboniad clir o'r risg o niwed yr oedd plant a phobl ifanc yn ei beri i bobl eraill mewn mwy na thri chwarter yr achosion a archwiliwyd gennym. Roedd rheolwyr achos wedi gwneud digon o ymdrech i ddeall ac egluro'r rhesymau pam fod plentyn neu berson ifanc yn peri risg o niwed i eraill mewn cyfran debyg o'r asesiadau cychwynnol a welsom. Roedd ar rai asesiadau angen mwy o eglurder am natur neu lefel y risg, a mwy o ystyriaeth i ddiodefwr posibl. Mewn nifer fach o achosion, nid oedd diodefwr go iawn wedi cael eu nodi.
2. Roedd cynllunio ar ddechrau'r ddedfryd ar gyfer gwaith i reoli risg o niwed i eraill yn annigonol mewn mwy nag un rhan o dair o'r achosion a arolygwyd gennym. Nid oedd cynllun cychwynnol wedi cael ei baratoi lle roedd ei angen yn hanner yr achosion hyn, tra roedd meysydd ansoddol ar gyfer gwella yn cynnwys ystyried diodefwr, ymatebion a gynlluniwyd i risg, a chynllunio wrth gefn. Roedd ansawdd y gwaith hwn ar gyfer plant a phobl ifanc yn cyflawni'r rhan o ddedfryd oedd yn ymwneud â charchar yn well, ac yn ddigonol mewn pump o saith achos perthnasol.
3. Roedd gan y GTI strategaeth glir ar gyfer dull a arweinir gan risg at oruchwylio achosion, ac o fewn hyn, roedd polisi a chyfarwyddyd cynhwysfawr oedd yn cwmpasu rheoli achosion risg uchel o niwed. Roedd pob plentyn a pherson ifanc oedd yn cyflwyno risg uchel o aildroseddu, niwed difrifol neu fregusrwydd, ynghyd â'r holl rai oedd yn gymwys ar gyfer Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA), achosion dan glo, a throseddwr rhyw, yn cael eu hadolygu mewn fforwm cynllunio achosion arferol.

4. Roedd y fforwm cynllunio achosion yn gyfle defnyddiol i gynnal trafodaeth o amgylch y bwrdd, gan gynnwys pob un o'r gweithwyr proffesiynol oedd yn ymwneud ag achos. Byddai'r cyfarfodydd a arsylwyd gennym wedi elwa o gael eu cadeirio'n fwy disgybledig lle roedd crynodeb eglur o'r adolygiad o gynnydd yn erbyn y cynllun, a datganiad o gamau gweithredu a gwaith yr oedd yn ofynnol ei gwblhau cyn yr adolygiad nesaf. Roedd y cyfarfodydd yn cael eu trin yn dda o safbwynt gweinyddol. Yn gyffredinol cafwyd bod logiau cyswllt yn nodi pryd yr oedd fforymau cynllunio wedi eu cynnal ond nid oeddent wedi cofnodi pwyntiau gweithredu a gwybodaeth allweddol arall.
5. Yn yr achosion a arolygwyd gennym gwelsom adolygiad annigonol o'r risg o niwed i eraill a berid gan y plentyn neu'r person ifanc drwy gydol y ddedfryd mewn un rhan o dair o'r achosion perthnasol. Yn ychwanegol at y rhai lle roedd angen gwella'r ansawdd, nid oedd rhai adolygiadau wedi'u cynnal o fewn amserlen briodol, ac nid oedd eraill wedi cael eu gwneud yn dilyn newid sylweddol mewn amgylchiadau. Yn yr un gyfran o achosion nid oedd adolygiad digonol o gynllunio rheoli risg trwy gydol y ddedfryd, fel arfer oherwydd nad oedd adolygiad wedi'i gynnal eto.
6. Roedd gan y rheolwr achos fynediad at adnoddau digonol ar gyfer gwaith i reoli risg o niwed i eraill ym mhob un o'r achosion a arolygwyd gennym. O ganlyniad i'r diffygion mewn asesu a chynllunio, fodd bynnag, mewn un rhan o dair o'r achosion nid oedd yr ymyriadau oedd eu hangen i reoli risg o niwed wedi eu cyflwyno. Nid oedd digon o reolaeth weithredol ac effeithiol ar y risg o niwed i eraill yn hanner yr achosion oedd yn peri risg o'r fath. Ond gwelsom gydweithio effeithiol i hwyluso trosglwyddiad esmwyth a pharhad gwasanaeth i ymdrin â'r risg o niwed yn y tri achos a oedd wedi'u trosglwyddo allan o'r GTI.
7. O ganlyniad i'r angen i wella asesu a chynllunio i reoli risg o niwed i eraill, roeddem yn ystyried yn gyffredinol nad oedd y GTI wedi gwneud digon i gadw risg person ifanc o niwed i eraill i isafswm mewn mwy na thraean o'r achosion perthnasol.
8. Mewn mwy na hanner yr achosion lle'r oedd angen hynny, nid oedd yr oruchwyliaeth gan reolwyr tîm neu'r fforwm cynllunio achosion wedi sicrhau bod y diffygion mewn gwaith ynghylch y risg o niwed a nodwyd uchod wedi cael sylw.
9. Roedd gan bron pob un o'r rheolwyr achos y gwnaethom eu cwrdd ddealltwriaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau lleol ar gyfer rheoli risg o niwed. Nid oedd unrhyw achosion yn cael eu rheoli ar Lefelau 2 neu 3 MAPPa yn y sampl a arolygwyd gennym; ond roedd tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth dda rhwng y GTI a MAPPa, a bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud.
10. Nid oedd yn glir a oedd, neu sut roedd, gwybodaeth ynghylch plant a phobl ifanc yn cael ei hanfon ymlaen fel y gellid ei chofnodi ar ViSOR, er enghraifft, pan fyddai troseddwr rhyw cofrestredig yn symud allan o'r ardal. Byddai hyfforddiant perthnasol, a mynediad i ViSOR gan swyddogion heddlu'r GTI wedi gwella'r llif gwybodaeth a chofnodi dilynol.
11. Roedd gan swyddogion heddlu'r GTI gyswllt cyfyngedig gyda thimau plismona cymdogaeth, a gallent fod wedi cael eu defnyddio i wella cyfathrebu rhwng y timau hyn a'r GTI er budd y ddwy ochr.

Crynodeb o'r data

Mae'r siart canlynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arolygiad o achosion. [Noder: cafodd 35 achos eu harolygu. Ond efallai na fydd cyfanswm yr atebion yn hafal i hyn, oherwydd efallai na fyddai rhai cwestiynau wedi bod yn berthnasol i bob achos]



Thema 3: Amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

P'un a yw natur fregus plant a phobl ifanc yn digwydd oherwydd canlyniadau eu hymddygiad eu hunain neu ymddygiad pobl eraill, rydym yn disgwyl gweld eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel a bod eu bregusrwydd yn cael ei leihau. Dylai hyn gael ei wneud trwy asesu a chynllunio o ansawdd da ynghyd â darparu ymyriadau priodol, arweinyddiaeth a rheolaeth gadarnhaol, a chyfraniad effeithiol at drefniadau amlasiantaethol i amddiffyn plant.

Sgôr asesu achosion

O fewn yr asesiad achos, yn gyffredinol roedd 69% o waith i amddiffyn plant a phobl ifanc a lleihau eu bregusrwydd yn cael ei wneud yn ddigon da.

Canfyddiadau allweddol

1. Roedd adroddiadau i'r llys ac asesiadau cychwynnol o amddiffyn a bregusrwydd yn dda.
2. Roedd ansawdd y cynllunio i ymdrin â bregusrwydd yn annigonol mewn mwy na hanner yr achosion lle'r oedd angen hynny.
3. Nid oedd y gwaith o reoli bregusrwydd bob amser yn cael ei adolygu pan oedd angen hynny.
4. Roedd cyswllt da a chydweithio gyda'r Gwasanaethau Plant.
5. Roeddem yn pryderu am y mynediad cyfyngedig i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS).
6. Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr o waith i reoli amddiffyn a bregusrwydd yn annigonol.

Esboniad o'r canfyddiadau

1. Gwelsom fod digon o ymdrech wedi'i wneud i ddeall ac esbonio bregusrwydd ac anghenion diogelu'r plentyn neu'r person ifanc mewn tri chwarter yr achosion a arolygwyd gennym. Yr unig feysydd nodedig i'w gwella oedd wrth asesu iechyd emosiynol a meddyliol mewn perthynas â'u heffaith ar fregusrwydd, ac mewn nifer fach o achosion angen am well cyswllt â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant.

Dyfyniadau gan blant a phobl ifanc

"[Mae'r GTI] yn dda iawn, rydw i wedi bod yma ers bron i ddwy flynedd, felly rwy'n gyrru 'mlaen yn dda gyda phob un ohonyn nhw. Rydw i'n gallu siarad â nhw ac rwy'n teimlo eu bod yn fy ystyried i. Dydw i ddim yn credu bod yna unrhyw beth drwg ac rydw i'n dod ymlaen yn dda gyda nhw i gyd."

"[Mae fy rheolwr achos] yn fy ffonio i drwy'r amser i wneud yn siŵr fy mod yn iawn, mae hi'n teimlo gofal amdana' i."

2. Gwelsom hefyd achosion lle nad oedd y rheolwr achos wedi nodi rhai risgiau posibl mewn perthynas â'r posibilrwydd o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant a oedd angen ystyriaeth, ac o bosibl, eu hymchwilio.
3. Roedd pob un ac eithrio dau o'r adroddiadau cyn dedfrydu a archwiliwyd gennym yn cynnwys esboniad trylwyr o anghenion diogelu a bregusrwydd y plentyn neu'r person ifanc, a oedd yn gryfder pwysig yng ngwaith y GTI.
4. Er bod gwaith asesu mewn perthynas â diogelu a bregusrwydd yn dda, canfuom fod cynllunio i ymdrin â'r anghenion hyn yn annigonol mewn mwy na hanner yr achosion lle'r

oedd angen hynny. Yn hanner yr achosion hyn, nid oedd cynllun rheoli bregusrwydd wedi cael ei gynhyrchu ar ddechrau'r ddedfryd. Roedd y meysydd mwyaf nodedig i'w gwella yn ymwneud â chynllunio i ymdrin â phroblemau emosiynol ac iechyd meddwl, a chamddefnyddio alcohol.

5. Ar gyfer trefniadau iechyd corfforol, Addysg, Hyfforddiant, Cyflogaeth, camddefnyddio sylweddau a threfniadau gofal, roedd y gwaith mewn perthynas â rheoli bregusrwydd yn well. Roedd cynllunio i ymdrin â diogelu a bregusrwydd hefyd yn well ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny oedd yn cyflawni cyfnod gwarchodol o ddedfryd.
6. Ond mewn mwy nag un rhan o dair o'r achosion lle'r oedd anghenion diogelu a bregusrwydd, roedd adolygiad annigonol o asesiad y plentyn neu'r person ifanc drwy gydol y ddedfryd. Roedd y rhan fwyaf o'r adolygiadau a oedd wedi cael eu gwneud o ansawdd digonol, ond nid oedd adolygiadau wedi'u cynnal o fewn amserlen briodol neu'n dilyn newid sylweddol mewn amgylchiadau. Canfuom hefyd fod cynllunio i ymdrin â'r materion hyn yn annigonol mewn mwy na hanner yr achosion perthnasol, ac yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn nid oedd cynlluniau wedi eu hadolygu o gwbl.
7. Roedd gan y rheolwr achos fynediad at adnoddau digonol i reoli diogelu a bregusrwydd ym mhob un o'r achosion a arolygwyd gennym. Mewn mwy na dwy ran o dair o achosion bregusrwydd roedd ymyriadau wedi cael eu darparu a oedd yn cyd-fynd ag anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Ond o ganlyniad i'r diffygion mewn asesu a chynllunio, mewn mwy nag un rhan o dair o'r achosion nid oedd ymyriadau oedd eu hangen i reoli bregusrwydd wedi'u cyflawni. Roeddem yn barnu na fu digon o reolaeth weithredol ac effeithiol ar ddiogelu a bregusrwydd gan y rheolwr achos mewn mwy nag un rhan o dair o'r achosion perthnasol. Ond gwelsom gydweithio effeithiol i hwyluso trosglwyddiad esmwyth a pharhad y gwasanaethau i ymdrin â diogelu a bregusrwydd yn y tri achos a drosglwyddwyd o'r GTI.
8. O ganlyniad i'r angen i wella asesu a chynllunio i reoli diogelu a bregusrwydd, roeddem o'r farn yn gyffredinol nad oedd y GTI wedi gwneud digon i gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel, naill ai oddi wrthynt eu hunain neu oddi wrth eraill mewn mwy nag un rhan o dair o achosion perthnasol.
9. Gwelsom dystiolaeth gyfyngedig o arolygu rheolaeth effeithiol ar waith i leihau bregusrwydd plant a phobl ifanc. Yn y mwyafrif helaeth o'r achosion lle'r oedd angen goruchwyliaeth gan reolwyr tîm neu'r fforwm cynllunio achosion, nid oedd wedi sicrhau bod y diffygion yn y gwaith i reoli bregusrwydd wedi cael sylw.
10. Roedd gan bron pob un o'r rheolwyr achos y gwnaethom eu cwrdd ddealltwriaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau lleol ar gyfer rheoli diogelu a bregusrwydd. Ond nid oedd gan rai aelodau o staff y GTI hyder yn eu dealltwriaeth o drothwyon Diogelu Plant, ac roeddent yn ymddangos yn amharod i uwchgyfeirio materion bregusrwydd oedd yn eu pryderu.
11. Gwelsom dystiolaeth o staff GTI yn rhannu gwybodaeth am risg perthnasol gyda Gwasanaethau Plant i lywio asesiadau cychwynnol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o staff y GTI yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal, er nad oedd cynlluniau ysgrifenedig bob amser yn adlewyrchu cyfraniadau'r GTI yn ddigonol. Gwelsom ddigon o dystiolaeth yn ffeiliau achos y GTI a staff y gwaith cymdeithasol o rannu gwybodaeth â'i gilydd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ar lwythi achosion a rennir. Roedd cyfathrebu rhwng staff yn rheolaidd ac arferol o ran trafod achosion un-i-un a phresenoldeb mewn fforymau cynllunio perthnasol, gan gynnwys fforwm cynllunio achosion y GTI.

Enghraifft o arfer nodedig

Ers peth amser roedd staff y GTI wedi cael gweld cronfa ddata achosion y Gwasanaethau Plant, CareFirst, yn llawn, ar ffurf darllen yn unig, ynghyd â'r hyfforddiant angenrheidiol ar y dechrau Yn fwy diweddar roedd tîm derbyn ac asesu'r Gwasanaethau Plant wedi cael gweld cronfa ddata achosion y GTI, ChildView, ac yn yr un modd darparwyd hyfforddiant ynghylch ei ddefnydd gan y GTI i staff y Gwasanaethau Plant.

12. Roedd copiau o gofnodion cyfarfodydd Amddiffyn Plant neu Blentyn mewn Angen ar gael i staff y GTI trwy eu mynediad at CareFirst, ond nid oedd y dogfennau hyn yn cael eu marcio fel hyperddolenni o fewn ChildView, ac yn aml nid oedd eu bodolaeth yn cael ei gofnodi yn y log cyswllt nac yn rhywle arall. O ganlyniad, roedd yn bosibl i'r wybodaeth oedd ynddynt gael ei hanwybyddu.
13. Roedd gallu staff y GTI i chwilio drostynt eu hunain a oedd plentyn neu berson ifanc yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant, yn hytrach na gorfod gwneud atgyfeiriad i gael y wybodaeth hon, yn amlwg o fudd sefydliadol. Ond ar yr ochr negyddol, roedd yn rhaid i reolwyr achos wneud cofnod ar log cysylltiadau ChildView o chwiliadau o'r fath, ac o'r ffaith eu bod wedi cyrchu at unrhyw ddogfennau neu wybodaeth a gedwid ar CareFirst, neu ni fyddai unrhyw dystiolaeth i reolwyr a chydweithwyr i gadarnhau fod hyn wedi cael ei wneud.
14. Mewn ychydig o achosion, nid oedd y GTI wedi cael manylion gan yr NPS na'r CRC am rieni/gofalwyr neu aelodau agos o'r teulu yr oedd yn hysbys eu bod o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf oedolion. Roedd hyn yn bwysig, fel y gallai unrhyw risg y gallent ei achosi i lesiant y plentyn neu'r person ifanc gael ei asesu.
15. Roedd gwaith ar Achosion Plant a oedd yn Derbyn Gofal (gan yr awdurdod lleol) a hefyd o dan oruchwyliaeth y GTI yn cael ei wneud ar y cyd â'r rheolwr achos a'r gweithiwr cymdeithasol ac roedd hyn yn rhoi mynediad i'r GTI i ystod ehangach o ymyriadau drwy'r adran Gwasanaethau Plant. Roedd trefniant amlddisgyblaethol 'Tîm o Amgylch y Teulu' yn rhoi cymorth i achosion a gaewyd i'r Gwasanaethau Plant, ond nid oedd unrhyw weithiwr rhianta pwrpasol ar gael.

Enghraifft o arfer nodedig

Cynhaliai'r GTI gyfarfodydd iechyd wythnosol a fynychid gan y gweithwyr iechyd a chamddefnyddio sylweddau a hefyd rheolwr gwasanaeth o dîm CAMHS a oedd yn ymwneud â'r GTI. Roedd hon yn fenter gadarnhaol wrth werthuso anghenion iechyd emosiynol, corfforol a meddyliol y plant a'r bobl ifanc.

16. Roeddem yn pryderu am y mynediad i CAMHS ar gyfer achosion GTI. Roedd oedi sylweddol ar gyfer plant a phobl ifanc oedd yn cael eu gweld gan y gwasanaeth ac mewn un achos roedd unigolyn wedi aros am 18 mis. O ganlyniad i'r oedi hwn, nid oedd y risgiau i'r plentyn neu'r person ifanc ei hun, ac i eraill yn cael eu rheoli'n effeithiol.
17. Roedd yna nifer o fentrau gofal iechyd mewn perthynas ag iechyd meddwl, ond nid oedd y rhain bob amser yn cael eu dogfennu'n gynhwysfawr o fewn y cofnodion achos a archwiliwyd gennym. Serch hynny, byddai'r cyfraniad ychwanegol wrth leoli nyrs iechyd meddwl o fewn y GTI wedi gwella'r modd y gellid cael gafael ar gyngor, cymorth ac addysg i blant a phobl ifanc. Byddent hefyd wedi darparu ffynhonnell cyngor i ymarferwyr eraill o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid.
18. Roedd anawsterau sylweddol gyda phobl ifanc oedd yn cyrchu at wasanaethau addas ar gyrraedd 18 oed. Roedd cynllun i ymdrin â'r maes hwn yn cael ei archwilio gan y bwrdd iechyd lleol.

19. Cyfyngedig hefyd oedd yr adnoddau a oedd ar gael i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, ac ni roddid digon o ystyriaeth i'r ystod eang o anghenion dysgu cymhleth oedd gan y plant a'r bobl ifanc hyn.
20. Dywedodd nifer o weithwyr staff y GTI fod llawer o benaethiaid ysgolion yn dal yn amharod i ddarparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau'r GTI. Ond roedd y cam a gymerwyd gan yr awdurdod lleol yn ddiweddar i sefydlu panel mynediad teg, a oedd wedi dod â phartneriaid addysg ynghyd i drafod dysgwyr agored i niwed oedd mewn perygl o ymddieithrio o addysg wedi dechrau gwella'r sefyllfa hon. Mynychai swyddog addysg y GTI y panel hwn ac roedd wedi bod yn effeithiol wrth wella ymwybyddiaeth ysgolion o'r cymorth a ddarperir gan y GTI i ddysgwyr ac ysgolion. Mae hyn wedi dechrau gwella parodrwydd penaethiaid i ddarparu ar gyfer dysgwyr y GTI.


Enghraifft o arfer nodedig

Cysylltai swyddog addysg y GTI yn dda gydag ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn yr asesiadau oedd eu hangen arnynt i gynllunio orau ar gyfer eu dyfodol. Er enghraifft, sicrhaodd swyddog addysg y GTI gytundeb ysgol i gyfeirio un plentyn oedd mewn perygl o gael ei wahardd yn barhaol am asesiad ffurfiol, a nododd fod ganddo gyflwr ar y sbectrwm awtistig. Helpodd hyn y swyddog addysg i gynllunio darpariaeth a fyddai'n fwy addas ar gyfer anghenion y dysgwr ac yn galluogi'r plentyn i gael mynediad at ddarpariaeth oedd yn cynnig cymwysterau ar lefel TGAU.

Crynodeb o'r Data

Mae'r siart canlynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arolygiad o achosion. [Noder: cafodd 35 achos eu harolygu. Ond efallai na fydd cyfanswm yr atebion yn hafal i hyn, oherwydd na fydd rhai cwestiynau efallai wedi bod yn berthnasol i bob achos]

Amddiffyn y Plentyn neu'r Person Ifanc



Thema 4: Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Dylai plant a phobl ifanc gyflawni eu dedfrydau fel y mae'r llys yn bwriadu. Rydym yn disgwyl y bydd y GTI yn gwneud eu gorau i sicrhau'r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus trwy ymgysylltu'n effeithiol â nhw a'u teuluoedd, gan ymateb i ffactorau amrywiaeth perthnasol gan gynnwys rhoi sylw i'w hiechyd a'u lles, a chymryd camau priodol os nad ydynt yn cydymffurfio.

Sgôr asesu achosion

O fewn yr asesiad achos yn gyffredinol roedd 81% o waith i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni yn ddigon da.

Canfyddiadau allweddol

1. Roedd gan y staff wybodaeth dda am, a diddordeb yn, y plant a'r bobl ifanc roeddent yn gweithio â nhw.
2. Roedd rheolwyr achos yn rhoi sylw da i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i gydweithredu.
3. Roedd lefelau da o gyswllt â'r plant a'r bobl ifanc a lefelau da o ymweliadau cartref.
4. Mewn rhai achosion, roedd gofynion cyfyngol mewn gorchmynion ymddygiad troseddol (CBOs) yn peryglu troseddoli'r plentyn neu'r person ifanc ymhellach.
5. Nid oedd trefniadau i ymateb i anghenion siaradwyr Cymraeg yn ddigon da, ac nid oedd gwerth y Gymraeg fel sgil cyflogaeth yn cael ei hyrwyddo.

Esboniad o'r canfyddiadau

1. Cryfder arbennig yng ngwaith staff yng Ngwasanaeth Troseddau Ieuencid Caerdydd oedd eu gwybodaeth am, a'u diddordeb yn, y plant a'r bobl ifanc roeddent yn gweithio â nhw. Canfuom fod ymdrech wedi'i gwneud i adnabod a deall ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i gydweithredu yn y rhan fwyaf o'r achosion a welsom. Yn gyffredinol, roedd y staff yn dda am gymell y plant a'r bobl ifanc ac am greu cysylltiadau gwaith gyda nhw.
2. Ym mhob achos bron, roedd staff wedi gwneud ymdrech glir i feithrin perthynas â phlant a phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr, a phobl eraill arwyddocaol wrth geisio deall y ffactorau yn yr achos. Roedd hyn yn cyfrannu at adroddiadau cyn dedfrydu o ansawdd da, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn rhoi digon o wybodaeth am ffactorau amrywiaeth a rhwystrau posibl i gydweithredu. Fel y nodwyd yn gynharach, roedd yr unig feysydd nodedig lle roedd angen mwy o sylw weithiau yn ymwneud ag arddulliau dysgu a lleferydd, iaith a chyfathrebu. Nid oedd yr asesiad o arddull dysgu yn cael ei wneud yn awtomatig ym mhob achos.

Dyfyniadau gan blant a phobl ifanc

"Ie, doedd yna ddim rhwystrau nac unrhyw beth felly ac roeddwn yn teimlo bod y GTI yn fy ysgogi i gydymffurfio gyda fy nedfryd."

"Ydy, mae o i gyd wedi bod yn dda ... maen nhw yn fy ysgogi gyda chynllun fy nedfryd."

"Ie, ro'n i'n hwyr unwaith a bu'n rhaid i mi fynd yn ôl i'r llys ond yna y cyfan a ddywedon nhw oedd i mi gario mlaen. [Mae'r] GTI yn helpu i fy ysgogi i gydymffurfio drwy ddweud fy mod wedi gwneud mor dda a phethau a bod eisiau i mi ddal ati."

3. Yn yr achosion a arolygwyd gennym ychydig o dystiolaeth oedd o broses sefydlu strwythuredig a oedd yn cyflwyno'r plentyn neu'r person ifanc i waith y GTI, a'r cyfleoedd a'r cyfrifoldeb a ddeuai gyda bod o dan oruchwyliaeth. Nid oedd gan y rhan fwyaf o achosion gopi papur o'r cynllun ymyrryd wedi'i lofnodi gan y plentyn neu'r person ifanc.
4. Mewn cyferbyniad, gwelsom ymdrechion i ddechrau cysylltu ar unwaith ar ôl dedfryd, lefelau da o gyswllt â'r plant a'r bobl ifanc, a lefelau da o ymweliadau cartref, gyda'r olaf yn cael eu gwneud bron bob amser pan oedd hyn yn arbennig o angenrheidiol. Ond nid oedd cofnodion cyswllt bob amser yn dangos bod digon o waith strwythuredig, oedd yn canolbwyntio ar y drosedd yn digwydd o fewn y lefelau da hyn o gyswllt.

Dyfyniad gan blentyn neu berson ifanc

"Ydw [rydw i wedi cael problemau wrth ddod i'r GTI] ... mi gês i drafferth gyda llawer o bobl ... felly dechreuodd [y GTI] ddod i fy nhŷ i."

5. Mewn tri chwarter yr achosion yn ein sampl nid oedd cynllunio dedfrydau yn rhoi digon o sylw i rwystrau i gydweithredu a ffactorau eraill yn ymwneud ag amrywiaeth neu ffactorau gwahaniaethol posibl.

Enghraifft o arfer nodedig

Roedd Bryn yn y gorffennol wedi bod yn destun dau orchymyn atgyfeirio yr oedd wedi eu torri drwy beidio â mynychu. Wrth wneud asesiad am orchymyn adsefydlu ieuencid (YRO), fe wnaeth awdur yr adroddiad edrych yn ôl dros y cysylltiadau gyda Bryn a sylwi fod ganddo anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd a nodweddion awtistaidd posibl, ac roedd yn mynd yn bryderus iawn gyda phobl newydd, amgylcheddau newydd a phrosesau newydd. Siaradodd â'r ysgol a chadarnhaodd fod Bryn yn gwneud orau pan oedd yn cael rhybudd ymlaen llaw o gyfarfodydd a phan oedd cysondeb o ran pwys oedd yn mynychu a ble roedd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal, ac y gallai oedi arwain at adwaith gwael gan Bryn. Ar ôl siarad â Bryn a'i dad am gysylltiadau yn y dyfodol ar orchymyn adsefydlu ieuencid (YRO), fe wnaeth awdur yr adroddiad gynnig gan deimlo'n hyderus y gallai diffyg cydymffurfio yn y gorffennol gael ei oresgyn. Y canlyniad oedd bod Bryn bellach bedwar mis i mewn i'w orchymyn ac roedd wedi mynychu pob apwyntiad ac wedi ymateb yn briodol ynddynt.

6. Roedd y plant a'r bobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr hefyd yn cael eu cynnwys yn ddigon da yn y gwaith o osod a darparu cynlluniau dedfryd. Daethom i'r casgliad cyffredinol fod y GTI yn y rhan fwyaf o achosion yn rhoi digon o sylw i'r canlyniadau iechyd a llesiant i'r plentyn neu'r person ifanc, i'r graddau y gallent weithredu fel rhwystr i ganlyniadau llwyddiannus o'r ddedfryd.
7. Roedd staff y GTI yn monitro plant a phobl ifanc agored i niwed oedd yn mynd i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE), gan eu galluogi i ymateb i unrhyw anawsterau y byddai'r plant a'r bobl ifanc yn eu profi, ac ymyrryd mewn modd amserol. Roedd hyn yn helpu'r plant a'r bobl ifanc i oresgyn rhwystrau a llwyddo yn y cyfleoedd a roddid iddynt.
8. Roedd gan y GTI fynediad at gyfleusterau cyfieithu fel y gallent anfon gohebiaeth at blant a phobl ifanc mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg, a gwnaed defnydd da o gyfieithwyr i gyfwrdd defnyddwyr gwasanaeth yr oedd eu Saesneg yn wael. Roedd hyn yn bwysig o ystyried y cynnydd diweddar ymhlith siaradwyr Tsiec, Roma, Pwyleg a Latfieg yng Nghaerdydd. Ond wnaethon ni ddim canfod unrhyw ymateb ehangach a mwy strategol i'r newid hwn, yn enwedig o ran mesur effaith iaith ar y gwaith o gyflenwi gwasanaethau yn llwyddiannus a'u heffaith, neu a allai defnyddwyr gwasanaeth o wahanol gefndiroedd ethnig fod angen gwasanaethau neu ymyriadau gyda chynnwys gwahanol. Ni chafwyd

unrhyw adborth ffurfiol gan blant a phobl ifanc neu eu rhieni/gofalwyr yn canolbwyntio'n benodol ar y mater hwn.

9. Nid oedd trefniadau'r GTI i ymateb i anghenion siaradwyr Cymraeg yn ddigon da. Roedd nifer fechan o staff a oedd yn dysgu Cymraeg, ond roedd argaeledd llythyrau pro forma dwyieithog neu adnoddau a gweithgareddau dysgu yn y Gymraeg yn wael. Roedd y rhan fwyaf o arwyddion ar gyfer y cyhoedd yn Saesneg yn unig. Roedd rhai o staff y GTI yn cymryd yn ganiataol y byddai siaradwyr Cymraeg yn gallu cyfathrebu yn Saesneg a bod hyn yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion. Nid oedd y GTI yn gwneud digon i annog plant, pobl ifanc na staff i gydnabod y Gymraeg fel sgil cyflogaeth.
10. Roedd hanner yr achosion yn ein sampl wedi cydymffurfio'n llawn â'u gorchymyn neu drwydded. Nid oedd un rhan o dair wedi cydymffurfio, tra roedd y gweddill wedi cydymffurfio yn dilyn trafferthion ar y dechrau. Roedd ymateb y GTI pan nad oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cydymffurfio'n llawn â'u dedfryd yn ddigonol mewn tri chwarter yr achosion hynny.
11. Roedd mwy nag un rhan o dair o'r plant neu bobl ifanc o'r achosion yn ein sampl wedi cael eu harestio neu wedi dod i sylw'r heddlu am drosedd honedig ers dechrau eu goruchwyliaeth. Roedd chwarter y sampl wedi eu cael yn euog o dorri eu gorchymyn neu drwydded, a chwarter wedi eu cael yn euog o drosedd, gan gynnwys troseddau a gyflawnwyd cyn y ddedfryd gyfredol.
12. Roedd gan y gwasanaeth heddlu yng Nghaerdydd agwedd weithredol at ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac roeddent yn defnyddio gorchymynion ymddygiad gwrthgymdeithasol a CBOs i ymdrin â hyn. Gwelsom dystiolaeth mewn rhai achosion o osod amodau cyffredinol mewn gorchymynion o'r fath, yn enwedig o ran parthau gwahardd, a fyddai wedi bod yn anodd i lawer o blant a phobl ifanc gadw atynt, ac yn sicr gan y plentyn neu'r person ifanc yn yr achosion dan sylw. Roedd hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddent yn torri'r gorchymyn, ac y byddent yn ymddangos gerbron y llysoedd, a gallai hyn gynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc oedd yn euog o drosedd arall.
13. Mewn rhai o'r achosion hyn roedd yn ymddangos bod tyndra rhwng rheolwr achos y GTI a'r heddlu, gyda rheolwyr achos yn anghytuno â'r cynnig i osod CBO, neu â'r gofynion arfaethedig o'i fewn. Er bod proses gan banel aml-asiantaeth i ystyried y rhai oedd yn addas ar gyfer gwarediadau'r tu allan i'r llys nid oedd proses ar y cyd ffurfiol i adolygu penderfyniadau ar gyhuddo plant a phobl ifanc.

Enghraifft o arfer nodedig

Roedd Aidan yn fachgen 15 oed gyda diagnosis o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, ond roedd y rheolwr achos yn amau a allai hefyd fod â nodweddiad awtistig. Teimlai'r rheolwr achos pe bai wedi cael diagnosis am hyn, yna y gallai ei ymddygiad fod wedi cael ei ddehongli'n wahanol, ac efallai na fyddai wedi dod i sylw'r system cyfiawnder troseddol. Yn ystod ei oruchwyliaeth gan y GTI dirywiodd ymddygiad Aidan ac roedd yn dod i sylw'r heddlu lleol yn rheolaidd. Mewn ymateb, a heb unrhyw drafodaeth amlasiantaethol, gwnaeth yr heddlu gais am CBO, a roddwyd yn ddiweddarach gan y llys. Roedd wedi bod yn ofalus i beidio â thorri'r gorchymyn ond roedd y rheolwr achos yn pryderu pe bai'n gwneud hynny y byddai Aidan mewn perygl o dderbyn dedfryd o garchar, a fyddai'n ei ansefydlogi ef yn sylweddol ac a allai arwain at ddirywiad pellach yn ei ymddygiad.

14. Roedd system ar waith i swyddogion heddlu'r GTI nodi pryd y deuai plant a phobl ifanc oedd ar lwyth achosion y GTI i sylw'r heddlu. Roedd hyn trwy gyfrwng baner ar system cudd-wybodaeth yr heddlu. Ond nid oedd hyn yn cael ei ddefnyddio'n systematig, ac nid

oedd baneri yn cael eu gosod ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc perthnasol ar lwyth achosion y GTI, gan adael bylchau posibl o ran rhannu cudd-wybodaeth.


15. Yn gyffredinol, canfuwyd tystiolaeth gyfyngedig o rannu cudd-wybodaeth ddwyffordd, gyda swyddogion yr heddlu yn gosod yr holl wybodaeth berthnasol yn uniongyrchol ar system rheoli achosion y GTI. Un rheswm posibl am hyn oedd bod rhywfaint o gudd-wybodaeth yn cael ei drosglwyddo'n anffurfiol, heb i unrhyw gofnod swyddogol gael ei wneud.
16. Nid oedd gwasanaeth yr heddlu yn defnyddio Hysbysiad Cynnar yr Heddlu i System y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, fel yr argymhellir gan y *Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid*³. Mae'r system hon yn anfon e-bost diogel awtomataidd yn uniongyrchol i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid yn cynnwys manylion am blant a phobl ifanc dan 18 oed sydd wedi cael eu harestio. Byddai wedi osgoi'r angen i swyddogion heddlu'r GTI dreulio cryn dipyn o amser yn mynd trwy gofnodion yr heddlu am arestiadau.

³ *Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid*, Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr, Ebrill 2013.

Crynodeb o'r data

Mae'r siart canlynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arolygiad o achosion. [Noder: cafodd 35 achos eu harolygu. Ond efallai na fydd cyfanswm yr atebion yn hafal i hyn, oherwydd efallai na fydd rhai cwestiynau yn berthnasol i bob achos]

Ensuring that the Sentence is Served



Thema 5: Llywodraethu a phartneriaethau

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trefniadau llywodraethu, partneriaeth a rheoli effeithiol yn eu lle. Mae'r rhain yn galluogi'r GTI i fodloni amcanion cyfiawnder troseddol cenedlaethol a lleol ac amcanion cysylltiedig, ac i ddarparu a chynnal gwasanaethau o ansawdd da.

Canfyddiadau allweddol

1. Roedd pob un o'r partneriaid allweddol yn cael eu cynrychioli ar Fwrdd Rheoli'r GTI ond roedd diffyg arweiniad cyson yn flaenorol wedi gwanhau ei effeithiolrwydd.
2. Nid oedd y Bwrdd wedi rhoi digon o gefnogaeth i reolwr y GTI i gryfhau'r modd yr oedd tim rheoli'r GTI yn gweithio i gyflawni gwelliannau yn ansawdd yr ymarfer.
3. Nid oedd system ar waith i'r Bwrdd ymgymryd â dadansoddiadau rheolaidd manwl o weithgareddau penodol y GTI.
4. Roedd defnydd minimol yn cael ei wneud o ddata perfformiad neu wybodaeth leol arall i dargedu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, a gwella arfer a deilliannau.
5. Nid oedd digon o brosesau sicrwydd ansawdd i gefnogi gwelliannau mewn ymarfer proffesiynol.
6. Roedd gwaith partneriaeth da wedi cyflwyno rhai arferion effeithiol.
7. Roedd y GTI yn cael ei staffio gan grŵp sefydlog a phrofiadol o ymarferwyr.

Esboniad o'r canfyddiadau

1. **Arweinyddiaeth a llywodraethu - mae troseddu yn cael ei leihau ac mae amcanion cyfiawnder troseddol ac amcanion cysylltiedig eraill yn cael eu bodloni**
 - 1.1. Roedd y GTI wedi'i leoli o fewn adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol ac roedd y Bwrdd Rheoli yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y Bwrdd yn cyfarfod yn chwarterol ac roedd pob un o'r partneriaid allweddol yn cael eu cynrychioli.
 - 1.2. Yn ychwanegol at Brif Arolygydd fel yr aelod o wasanaeth yr heddlu, roedd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau lleol yn eistedd ar y Bwrdd. Roedd nifer o bobl yn meddwl ei fod wedi dod â thrylwyrdd ychwanegol at drafodaethau'r Bwrdd, ond roedd pryderon hefyd o ystyried ei berthynas allanol gyda gwasanaeth yr heddlu - a oedd yn bartner statudol allweddol. Ar gyfer y dyfodol agos y bwriad oedd y byddai ei le ar y Bwrdd yn cael ei gymryd gan ei ddirprwy. Ar yr un pryd roedd cadeiryddiaeth y Bwrdd yn mynd i gael ei gymryd drosodd gan Brif Weithredwr Cyngor y Ddinas.
 - 1.3. Roedd diffyg arweiniad cyson ar gyfer y Bwrdd yn y gorffennol wedi arwain at gefnogaeth annigonol gan iechyd ac addysg a diffyg cyffredinol o gyfeiriad i'r GTI. Roedd rheolwr y GTI wedi bod yn gweithredu ar lefel fwy strategol i wneud iawn am y gwendid hwn yn y Bwrdd.
 - 1.4. Ar y cyfan, nid oedd gan aelodaeth y Bwrdd ddigon o arbenigedd gweithredol ac roeddent wedi cael trafferth i roi sylw strategol angenrheidiol i sicrhau gwell perfformiad. Roedd wedi methu â rhoi digon o gefnogaeth i reolwr y GTI, i'w chynorthwyo hi i gryfhau gweithrediad tim rheoli'r GTI fel y gallai gyflawni'r

gwelliannau angenrheidiol yn ansawdd yr ymarfer a'r canlyniadau i blant a phobl ifanc.

- 1.5. Yn fwy diweddar, roedd arweinyddiaeth y Bwrdd wedi sefydlogi ac roedd y Bwrdd wedi cynnal adolygiad o'r modd roedd yn gweithredu a oedd yn cydnabod yr angen i adolygu'r cylch gorchwyl, ac i aelodau fod yn fwy gweithgar wrth ddal y GTI i gyfrif. Yn ein barn ni, roedd angen i aelodau'r Bwrdd gymryd perchnogaeth gryfach o'r GTI a mwy o gyfrifoldeb am hyrwyddo ei waith o fewn eu sefydliadau eu hunain.
- 1.6. Roedd yr awdurdod lleol yn canolbwyntio ar atal a dargyfeirio ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn y GTI, a oedd wedi datblygu agwedd gadarn ac arloesol at waith ataliol. Roedd hyn yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru y dylai plant a phobl ifanc gael eu gweld fel plant yn gyntaf ac fel troseddwyr yn ail. Roedd ei lwyddiant wedi arwain yn rhannol at lwyth achos o waith statudol llai, ond mwy difrifol, yn y GTI. Gallai hyn fod wedi cyfrannu'n rhannol at y ffaith fod y cyfraddau ail-euogfarnu ac aildroseddu yn uwch na'r disgwyl.
- 1.7. Er bod yr angen am fwy o bwyslais ar atal troseddu pellach gan y plant a'r bobl ifanc ar orchymnion statudol yn cael ei gydnabod gan rai aelodau unigol o'r Bwrdd, nid oedd hyn yn ymddangos fel ffocws penodol yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Roedd dealltwriaeth anghyflawn ynghylch proffiliau troseddu ac anghenion y llwyth achosion statudol ac nid oedd unrhyw strategaeth glir a rennir yn ei lle i leihau aildroseddu.
- 1.8. Un o'r pethau roedd y Bwrdd yn canolbwyntio arno oedd cadw i fynd a chynnal adnoddau sylfaenol, ac ychydig iawn o wybodaeth leol roedd wedi gofyn amdani gan ei bartneriaid am y bobl hynny yr oedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gweithio â nhw. Er enghraifft, nid oedd gan y Bwrdd ddadansoddiad o ddata troseddau i roi dealltwriaeth o batrymau troseddu a thueddiadau oedd yn ymddangos, ac ymateb yn unol â hynny, fel y duedd yn y defnydd cynyddol o'r hyn a elwir yn sylweddau seicoweithredol newydd ('legal highs'). Nid oedd dadansoddiad o anghenion cyfredol a chynhwysfawr ar gyfer llwyth achosion statudol y GTI. Nid oedd cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn ymddangos fel mater penodol ar agendâu cyfarfodydd y Bwrdd, er y byddai gwybodaeth reolaidd am y pwnc hwn wedi cynorthwyo'r Bwrdd i ganolbwyntio ar y rhai hynny oedd yn y perygl mwyaf o niwed.
- 1.9. Er ei bod yn ymddangos bod ystod a natur yr ymyriadau a ddarperir gan neu sydd ar gael i'r GTI yn briodol ar y cyfan, nid oedd unrhyw ymagwedd strategol glir at ddatblygu a darparu ymyriadau i leihau troseddu. Yn lle hynny, roedd hyn yn cael ei arwain i raddau helaeth gan ymarferwyr mewn ymateb i anghenion a phroblemau llwyth achosion gweithwyr, yn hytrach na bod yn rhan o gynllun deallus o dan gyfarwyddyd y Bwrdd.
- 1.10. Roedd y GTI wedi cyflwyno trefn o 'adrodd am atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau' i'r Bwrdd. Roedd hyn yn rhoi sylwebaeth ddefnyddiol a pherthnasol ar feysydd gwaith penodol ond nid oedd bob amser yn rhoi digon o fanylion am ymyriadau a'u canlyniadau. Roedd angen dadansoddiad cryfach ynghyd ag argymhellion ar gyfer gweithredu.
- 1.11. Roedd angen i'r Bwrdd roi arweiniad cryfach ar berfformiad proffesiynol a gwella ansawdd. Nid oedd system ar waith i'r Bwrdd ymgymryd â dadansoddiadau rheolaidd a manwl o weithgareddau neu feysydd gwaith penodol y GTI, yn enwedig mewn perthynas â'u hansawdd a'u heffeithiolrwydd. Nid oedd wedi gosod fframwaith clir ar gyfer rheoli a gwella ansawdd. Roedd archwiliad sicrhau

ansawdd wedi ei gynnal yn 2014, ond nid oedd y rhain yn cael eu gwneud fel mater o drefn.

2. Partneriaethau - mae partneriaethau effeithiol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol

- 2.1. Roedd perthnasau gwaith da yn bodoli ar lefel y Bwrdd gyda'r holl asiantaethau allweddol, ac roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid yn ystyried bod ei bartneriaid yn parhau yn gefnogol er bod mwy o gyfyngiadau cyllidebol yn arwain at gwtogi rhywfaint ar y ddarpariaeth. Ond hyd yn hyn nid oedd hyn wedi effeithio ar unrhyw berthynas weithredol yn sylweddol.
- 2.2. Roedd adolygiad ym mis Mai 2014, a gomisiynwyd gan Heddlu De Cymru a'r Comisiynydd Trosedd wedi cynhyrchu canllawiau i ddiffinio rôl swyddog heddlu'r GTI ac roedd yn gyffredinol yn unol â model cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid (BCI). O ganlyniad, roedd y swyddogion a natur eu gwaith wedi newid i ganolbwyntio yn fwy eglur ar y rolau craidd fel y diffinnir hwy gan y ddogfen ganllaw newydd hon.
- 2.3. Roedd dau swyddog yr heddlu llawn-amser yn y GTI a oedd yn gyfraniad iach gan yr heddlu. Roedd y ddau wedi'u cydleoli'n briodol yn y GTI, er bod cyfle yn parhau i wireddu mwy o'r manteision posibl a ddeuai yn sgil hyn, yn enwedig o ran rhannu cudd-wybodaeth.
- 2.4. Roedd yn ymddangos fod dull gweithredol yr heddlu o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a defnyddio ASBOs a CBOs, weithiau gydag amodau cyfyngol y byddai'r plant a'r bobl ifanc yn ei chael yn anodd cadw atynt, yn mynd yn groes i'r dull o weld y plant a'r bobl ifanc fel plant yn gyntaf a throseddwyr yn ail. Roedd ganddo hefyd y potensial i fynd yn groes i *Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011* Llywodraeth Cymru, sy'n annog gwasanaethau i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a chefnogaeth amlasiantaeth gyfannol, a hyrwyddo diwylliant o nodi a hyrwyddo arfer effeithiol i wella canlyniadau i bobl ifanc. Roedd angen sylw gan y Bwrdd i ddatrys y maes gwrthdaro posibl hwn rhwng anghenion dioddefwyr a'r gymuned ehangach ar un llaw, a phlant a phobl ifanc y GTI ar y llaw arall.
- 2.5. Er bod panel asiantaeth ar y cyd ar gael i weinyddu rhybuddion a rhybuddion amodol, nid oedd unrhyw banel tebyg ar waith i benderfynu a oedd yn briodol cyhuddo plentyn neu berson ifanc. O ganlyniad, ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny oedd yn hysbys i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuentid nid oedd cyfle i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuentid gyfrannu at benderfyniad yr heddlu ynghylch cyhuddo.
- 2.6. Roedd gan y GTI berthynas dda a sefydledig gyda gwasanaethau prawf oedolion. Er bod y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) wedi lleihau ei staff a secondiwyd i ddau swyddog prawf a swyddog gwasanaeth prawf, roeddent yn rhoi gwasanaeth gwerthfawr i'r GTI. Roedd un o'r swyddogion a secondiwyd yn goruchwyllo pob achos oedd yn debygol o gael ei drosglwyddo i'r gwasanaeth oedolion, fel swydd drosiannol oedd yn cael ei hariannu ar y cyd. Roedd y GTI wedi treialu defnyddio swyddi o'r fath ac roedd y trefniant hwn yn awr yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.
- 2.7. Roedd yr holl achosion yn cael eu trosglwyddo i ddechrau i'r NPS, ond o ystyried y gallai rhai wedyn gael eu hail-ddyrannu i'r CRC, roeddent hefyd yn cynnal cyswllt gyda'r CRC, yn enwedig gan fod yr uned Rheoli Troseddwyr Integredig wedi ei lleoli o fewn y sefydliad hwnnw.

- 2.8. Roedd yn ymddangos fod y GTI wedi ei ymgorffori'n dda o fewn yr adran gwasanaethau plant. Mynegodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac aelodau cynghorau etholedig hyder yn rheolwr y GTI ac roeddent yn amlwg yn gwerthfawrogi ei harbenigedd hi mewn perthynas â'r agendâu atal a chyfiawnder adferol.
- 2.9. Roedd gan y GTI bartneriaeth gref gyda Gyrfa Cymru⁴, ac roedd un o reolwyr Gyrfa Cymru yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd y GTI yn rheolaidd.
- 2.10. Roedd cyfraniad gwasanaethau iechyd at y GTI yn anodd oherwydd bod darpariaeth CAMHS wedi ei chomisiynu dros ardal eang, ac roedd adnoddau yn cael eu darparu dim ond i'r rhai a oedd wedi derbyn diagnosis o salwch meddwl. Nid oedd unrhyw fewnbwn seiciatrigr ffurfiol i mewn i'r GTI, a dim ond y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid oedd yn gallu darparu asesiad ar gyfer anghenion emosiynol ac ymddygiadol oherwydd bod y gweithiwr iechyd yn digwydd bod yn ddigon cymwys yn y maes hwn.
- 2.11. Ond roedd yn galonogol nodi nifer o fentrau newydd a oedd yn cael eu cynllunio gyda'r bwrdd iechyd a fyddai'n gwella'r gwasanaethau sydd ar gael i achosion y GTI, gan gynnwys cynllun adnabod seicosis cynnar a arweinir gan nyrsys ar gyfer pobl ifanc 14-25 oed.

3. Rheoli'r Gweithlu - mae rheoli'r gweithlu'n effeithiol yn cefnogi cyflwyno gwasanaeth o safon

- 3.1. Roedd y GTI yn cael ei staffio gan grŵp cymharol sefydlog a phrofiadol o ymarferwyr. Derbyniodd pob un o'r staff y gwnaethom eu cyfarfod oruchwyliaeth broffesiynol ffurfiol yn fisol, ac roedd rheolwyr tîm wrth law i roi cymorth anffurfiol. Nid oedd unrhyw arsylwi ffurfiol o ymarfer gan reolwyr llinell, a gallai hyn fod wedi bod yn gyfle a gollwyd i helpu i ledaenu arfer da rhwng y staff. Roedd y gweithwyr iechyd a chamddefnyddio sylweddau yn cael eu goruchwyllo ochr yn ochr â rheolwyr achos fel rhan o dîm amlddisgyblaeth, o ganlyniad i leihad yn nifer y rheolwyr tîm.
- 3.2. Er bod staff yn ystyried bod eu goruchwyliaeth broffesiynol yn dda, daethom i'r casgliad nad oedd goruchwyllo a goruchwyliaeth rheoli arferol wedi bod yn ddigonol i ymdrin â'r amrywiol ddiffygion mewn ymarfer a welsom. Roedd gan y fforymau cynllunio achosion rheolaidd y potensial i roi goruchwyliaeth proffesiynol ychwanegol a chyfeiriad, ond yn ymarferol roeddent yn canolbwyntio ar gyfnewid gwybodaeth a chynllunio ar y cyd yn hytrach na nodi meysydd ar gyfer gwella ymarfer.
- 3.3. Roedd gan staff y GTI fynediad at hyfforddiant perthnasol, ac roedd hyn wedi cynnwys hyfforddiant a sesiynau briffio yn ymwneud â cham-fanteisio rhywiol ar blant. Nododd rhai staff fod angen mewnbwn pellach mewn perthynas ag adnabod ac ymateb i anghenion lleferydd, iaith neu gyfathrebu. Roeddem hefyd o'r farn fod angen gwneud rhagor o waith i ymgorffori hyfforddiant ar gam-fanteisio'n rhywiol ar blant, gan nad oedd pob un o'r risgiau posibl oedd angen ystyriaeth ac ymchwiliad posibl wedi eu nodi ym mhob achos a welsom.

⁴ *Gyrfa Cymru Careers Wales* yw enw masnachu Career Choices Dewis Gyrfa Ltd (CCDG), is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru a ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2013. Mae'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am yrfaedd ar gyfer pob oed, yn annibynnol a diduedd ar gyfer Cymru.

- 3.4. Roedd bron pob un o'r staff yn ymddangos fel pe bai ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o egwyddorion ymarfer effeithiol, ac o'r holl bolisiau a gweithdrefnau lleol oedd yn berthnasol i'w gwaith. Roedd y staff a secondiwyd y gwnaethom eu cwrdd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod wedi eu hintegreiddio'n dda yn y GTI. Disgrifiodd rhai o staff y GTI eu hunain fel rhai 'hunan-gefnogi', ac fel rhai oedd yn cael digon o gyswllt gyda'u rheolwr tîm GTI ond cymharol ychydig o gyswllt gyda rheolwr y GTI.
- 3.5. Roedd dau swyddog heddlu'r GTI yn gymharol newydd yn y swydd ac er eu bod yn swyddogion profiadol, nid oedd ganddynt gefndir yn ymwneud â rheoli troseddwy. Roeddem yn pryderu nad oeddent wedi cael hyfforddiant penodol mewn perthynas â gweithio gyda phlant a phobl ifanc, neu yn fwy penodol mewn diogelu. Roeddent wedi cael rhywfaint o hyfforddiant gan yr heddlu ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd ganddynt ddealltwriaeth gyfyngedig o broses MAPPA, ac roedd hwn yn faes arall lle roedd angen hyfforddiant.
- 3.6. Adroddodd y staff prawf a secondiwyd eu bod wedi derbyn goruchwyliaeth broffesiynol dda o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid a hefyd eu bod yn cael cefnogaeth ychwanegol rheolwr cyswllt yn y GPC (NPS). Roeddent yn gallu mynychu digwyddiadau ymgysylltu â staff oedd yn cael eu cynnal gan y GPC, ac roedd ganddynt gysylltiadau uniongyrchol i mewn i'r strwythur rheoli prawf.
- 3.7. Roedd yr ymgynghorwyr gyrfaoedd a gyflogid yn y GTI yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwr o Gyrfa Cymru, a oedd yn sicrhau bod ganddynt fynediad da i gyfleoedd hyfforddi.

4. Sefydliad dysgu - mae dysgu a gwella yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol

- 4.1. Ychydig o dystiolaeth a gafwyd bod y GTI neu'r Bwrdd Rheoli yn defnyddio data perfformiad neu wybodaeth arall, megis adborth gan blant a phobl ifanc, i wella arferion neu ganlyniadau. Gallai'r GTI wneud mwy i ddadansoddi a monitro effeithiolrwydd ymyriadau a ddarperir, a defnyddio'r wybodaeth hon i wella'r modd y mae yn targedu adnoddau a gwella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.
- 4.2. Ychydig o brosesau sicrhau ansawdd oedd ar gael i gefnogi'r oruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol ar staff gan eu rheolwyr. Roedd gan y GTI ffurflen archwilio achosion o ran sicrhau ansawdd i'w defnyddio gan reolwyr tîm, ond roedd sut roedd hon yn cael ei defnyddio neu a oedd hi'n cael ei defnyddio o gwbl yn aneglur. Roedd yna hefyd system ar gyfer adolygu ansawdd adroddiadau cyn dedfrydu.
- 4.3. Roedd yn dda gweld bod rheolwyr achos yn gallu nodi cynnydd a wneir gan y plant a'r bobl ifanc ar eu llwyth achosion. Canfuom, fodd bynnag, mewn llawer o achosion nad oedd y cynnydd hwn yn cael ei nodi mewn modd digon clir neu gyson yn y cofnodion achos iddo gael ei ddefnyddio'n systematig.
- 4.4. Roedd gan weithiwr iechyd y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid hefyd ymdeimlad da o'r effaith a geir gyda'r plant a'r bobl ifanc. Yn yr un modd, nid oedd unrhyw ddull systematig o gasglu'r wybodaeth hon a'i defnyddio i wella effeithiolrwydd y modd y cyflwynir y gwasanaeth.
- 4.5. Yn unigol, roedd aelodau Bwrdd y GTI yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gwerthuso a rhoi adborth i gefnogi gwelliant. Roedd gan yr aelod addysg ar Fwrdd y GTI ddealltwriaeth dda o'r hyn roedd angen i'r GTI ei wneud i werthuso cynnydd plant a phobl ifanc wrth ddatblygu'r sgiliau a'r ymddygiad y mae arnynt eu hangen i osgoi ymddygiad troseddol pellach.

- 4.6. Ond nid oedd y GTI yn casglu a dadansoddi data yn effeithiol ar lefelau llythrennedd a rhifedd y plant a phobl ifanc o dan ei oruchwyliaeth. Nid oedd eu sgiliau sylfaenol yn cael eu hasesu fel mater o drefn pan oeddent yn ymwneud â'r GTI, ar wahân i asesiad cychwynnol ar gyfer y rhai oedd yn mynychu'r rhaglen Gwylidwriaeth a Goruchwyllo Dwys⁵ (ISS). O ganlyniad, roedd yn aneglur weithiau pa lefelau o lythrennedd, ac felly pa gyfleoedd ar gyfer dilyniant, y gallent ymdopi â hwy. Nid oedd unrhyw werthusiad i weld a oedd eu sgiliau yn gwella yn ystod eu cysylltiad â'r GTI, neu gyda'r asiantaethau sy'n bartneriaid yr oeddent yn cael eu cyfeirio atynt.
- 4.7. Cydnabu aelod prawf y Bwrdd na fu unrhyw ddadansoddiad o ailddosedd gan y rhai yr oedd eu goruchwyliaeth yn trosglwyddo o'r GTI i wasanaethau prawf i oedolion. Gallai hyn ddarparu gwybodaeth werthfawr i lywio gwaith gyda phobl ifanc a oedd yn mynd trwy un o'r pwyntiau mwyaf peryglus yn 'nhaith y troseddwr'.
- 4.8. Roedd dedfrydwyr yn deall yr wybodaeth am berfformiad cyfanredol a gawsant ond yn meddwl bod y ffaith nad oes proses i ddarparu adborth ar hanesion unigol achosion a ddewiswyd yn gyfle a gollwyd i roi sicrwydd iddynt ynghylch gwerth gwaith y GTI.
- 4.9. Roedd gan y GTI broses i gasglu adborth gan ddefnyddwyr ar ôl cwblhau'r oruchwyliaeth, ond yn y rhan fwyaf o achosion ni chafwyd adborth gan y plant a'r bobl ifanc, na'u rhieni/gofalwyr. Yn y 12 mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2015 roedd llai nag un o bob deg o'r plant a'r bobl ifanc a gafodd eu trin gan y GTI wedi llenwi ffurflenni adborth. Roedd yr adborth gan y rhai a gafodd eu cwblhau yn gadarnhaol iawn; dywedodd ymhell dros dri chwarter eu bod yn ystyried y GTI yn ddefnyddiol ac roeddent yn gadarnhaol am y dyfodol yn dilyn ei ymyrraeth. Roedd y canfyddiadau hyn yn gyson â data ein e-arolwg ein hunain.
- 4.10. Roedd y ganolfan presenoldeb iau⁶ oedd yn cael ei rhedeg gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid yn elfen sefydledig ac arwyddocaol o'i ddarpariaeth i ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â throseddau ac ymddygiad ar gyfer plant a phobl ifanc o dan oruchwyliaeth statudol. Er gwaethaf hyn nid oedd unrhyw werthusiad o'i effeithiolrwydd.
- 4.11. Ar y llaw arall, fel rhan o'i waith dargyfeirio o'r llys roedd y GTI yn gweithredu tîm ymddygiad gwrthgymdeithasol a phaneli gwneud iawn i'r gymdogaeth. Roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu hariannu â grant ac o ganlyniad roedd adrodd ar weithgaredd, ochr yn ochr â gwerthuso dangosyddion canlyniadau ac effaith, wedi ei gynnwys yn eu prosesau. Roedd y tîm hefyd yn ceisio cynnwys mesurau 'effaith' meddalach megis gwell presenoldeb yn yr ysgol, ac roedd yn defnyddio offeryn y BCI wedi'i addasu i olrhain canlyniadau troseddau. Gallai'r dull hwn o ymdrin â gwerthuso gael ei gymhwyso yn yr un modd i lawer o wasanaethau'r GTI a ddarperir i achosion statudol.

⁵ Mae Gwylidwriaeth a Goruchwyllo Dwys yn rhaglen ymyrraeth sydd ynghlwm wrth rai gorchmynion a thrwyddedau ac mae'n darparu o leiaf 25 awr o gyswllt wedi'i raglennu yr wythnos, gan gynnwys cyfran sylweddol o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg.

⁶ Roedd y ganolfan presenoldeb iau yn gweithredu bob yn ail dydd Sadwrn ac yn darparu rhaglen strwythuredig o weithgareddau i ymdrin ag ymddygiad troseddol a gwella sgiliau cymdeithasol. Roedd y ganolfan ar agor i bob un o achosion y GTI, gan gynnwys y rheiny yr oedd yn ofynnol iddynt fod yn bresennol fel gofyniad penodol o'u gorchmyn llys.

Thema 6: Ymyriadau i leihau aildroseddu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Dylai'r gwaith gyda phlant a phobl ifanc i leihau aildroseddu gynnwys ystod eang o ymyriadau o ansawdd da. Dylent ystyried angen a gallu unigol, gael eu cyflwyno'n dda, a'u monitro a'u gwerthuso er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. Pan fo plant a phobl ifanc yn gweithio gyda mwy nag un asiantaeth, dylai fod tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth integredig.

Sgôr asesu achosion

O fewn yr asesiad achos yn gyffredinol roedd 73% o'r gwaith i ddarparu ymyriadau yn ddigon da.

Canfyddiadau allweddol

1. Roedd rheolwyr achos yn cael mynediad at adnoddau ac ymyriadau digonol i leihau aildroseddu, rheoli risg o niwed i eraill, ac ymdrin â diogelu.
2. Roedd staff profiadol ac ymroddedig yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i safon uchel.
3. Roedd yna ganolfan bresenoldeb iau sefydledig wedi'i hintegreiddio'n llawn o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid.
4. Roedd ymarferwyr yn gyrru'r ddarpariaeth yn ei blaen ac yn datblygu ymyriadau.
5. Nid oedd unrhyw strategaeth neu bolisi cyffredinol i bennu ystod a chynnwys y ddarpariaeth.
6. Ni fu unrhyw ddadansoddiad diweddar, empeiraidd o anghenion llwyth achosion y GTI.

Esboniad o'r canfyddiadau

1. Roedd rheolwyr achos yn cael mynediad at adnoddau ac ymyriadau digonol i leihau aildroseddu, rheoli risg o niwed i eraill, ac ymdrin â diogelu ym mhob un o'r achosion a archwiliwyd gennym. Roedd plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at y rhan fwyaf o'r ymyriadau roedd arnynt eu hangen heb fod ar restr aros am gyfnod hir. Roeddem yn ymwybodol, fodd bynnag, y gallai fod anawsterau weithiau o ran cael mynediad at lety ac ymyriadau iechyd meddwl.
2. Gwelsom fod addasrwydd a chymhwyster y plentyn neu'r person ifanc ar gyfer ymyriadau penodol i ymdrin ag aildroseddu wedi cael eu hystyried yn ddigonol yn y rhan fwyaf o achosion. Ond mewn ychydig dros un rhan o dair o achosion, nid oedd cynllunio cychwynnol ar gyfer gwaith i leihau aildroseddu wedi amlinellu'n glir pa ymyriadau oedd i gael eu darparu a sut. At ei gilydd, nid oedd y modd y darperid ymyriadau wedi llwyddo i wneud cyfraniad digonol at leihau aildroseddu mewn bron i hanner yr achosion a archwiliwyd gennym, yn bennaf oherwydd bod ymyriadau annigonol wedi eu darparu.
3. Wrth i ni sylwi ar arferion, gwelsom staff profiadol ac ymroddgar yn cynllunio a darparu gwasanaethau i safon uchel. Roedd defnyddwyr gwasanaeth ac asiantaethau partner yn fodlon ar y cyfan â'r gwasanaethau a gawsant a'r ffordd yr oedd y gwaith wedi ei wneud.

Dyfyniadau gan blant a phobl ifanc

"Ie, dioddefwr, trosedd, cyngor - Rydw i wedi gwneud popeth, roedd yn fwy defnyddiol i mi ac yn gwneud i mi sylweddoli beth oedd wedi digwydd gyda mi."

"Rwy'n deall sut mae dioddefwyr yn teimlo felly rwy'n teimlo'n fwy ystyriol tuag at y dioddefwr."

4. Ar wahân i waith grŵp a gyflwynir gan y tîm goruchwylio a gwyliadwriaeth ddwys a chanolfan presenoldeb iau, roedd y rhan fwyaf o waith o fewn y GTI yn cael ei gyflwyno ar

sail unigol. Roedd rheolwyr tîm yn cydnabod bod eu staff yn defnyddio ymyriadau pwrpasol yn bennaf a oedd yn cael eu nodi yn y cyfnod adrodd cyn-dedfrydu neu yn ystod yr asesu a'r cynllunio cychwynnol. O ganlyniad, roedd ymarferwyr yn gyrru'r gwaith o ddarparu a datblygu ymyriadau, a lle'r oedd bylchau yn y ddarpariaeth cyfrifoldeb yr ymarferwyr oedd bod yn greadigol wrth ddod o hyd i atebion.

5. Roedd hyn yn hyrwyddo arloesi ond roedd wedi arwain at anghysondebau o ran darparu gwasanaethau, lle roedd rhai achosion yn cael eu cyfeirio at ymyriad penodol ac achosion tebyg ddim. Gallai hefyd fod wedi arwain at adnoddau'n cael eu tanddefnyddio. Ar y pryd roedd 16 o blant a phobl ifanc ar lwyth achosion y ganolfan presenoldeb iau, a oedd yn ostyngiad sylweddol mewn niferoedd dros y misoedd diwethaf. Er bod hyn wedi arwain at danddefnydd o'r adnodd ni fu unrhyw ymateb ffurfiol na chynllun gweithredu gan reolwyr y GTI i ymdrin â'r sefyllfa.
6. Roedd ymyriadau wedi cael eu datblygu yn fewnol yn bennaf, yn aml gan ddefnyddio elfennau o becynnau a gynlluniwyd mewn manau eraill a'u haddasu gan ymarferwyr y GTI. Roedd gan y GTI lyfrgell o adnoddau a deunyddiau ar ymddygiad troseddol a oedd yn cael eu storio'n electronig. Nid yw'r rhain wedi cael eu cadw yn gyfredol na'u hadolygu'n rheolaidd, er bod ymyriadau ychwanegol wedi'u hychwanegu at y rhestr pan oedd angen. Roedd cytundeb cyffredinol nad oedd y deunydd hwn mor drefnus a hygyrch ag y gallai fod.
7. Roedd y tîm ymyriadau dwys yn y broses o ail-ddylunio eu rhaglen o ymyriadau a gynlluniwyd a'r bwriad oedd y byddai hyn yn cael ei drefnu yn fwy cydlynol a'i wneud yn fwy hygyrch i ymarferwyr. Ond ar y cyfan, nid oedd ystod a chynnwys y ddarpariaeth wedi'u pennu gan strategaeth neu bolisi troswaol. Er bod rheolwyr achos yn wybodus am anghenion eu hachosion unigol ni fu unrhyw ddadansoddiad anghenion empeiraidd, diweddar o lwyth achosion y GTI, neu o blant a phobl ifanc eraill a oedd wedi dod i sylw'r heddlu.
8. Roedd paneli gorchmynion atgyfeirio yn cael eu cynllunio a'u darparu gan y rheolwr achos ac roedd y gefnogaeth gorfforaethol ar gyfer y broses yn cael ei darparu gan staff cymorth gweinyddol. Er bod y cyfarfodydd panel yn cael eu cyflwyno'n dda, nid oedd y broses yn cael ei chefnogi'n briodol. Roedd yn rhaid i'r rheolwr achos baratoi'r ystafell a briffio aelodau'r panel ar y funud olaf. Nid oedd dim un o'r staff dan sylw wedi gweithio gyda'i gilydd o'r blaen nac wedi cael cyfle i baratoi ar gyfer cyflwyno'r sesiynau. Rhan o'r rheswm dros hyn mae'n debyg oedd y ffaith y collwyd swydd cydlynedd gorchmynion cyfeirio a oedd yn cyflawni'r trefniadau ymarferol a gweinyddol yn flaenorol.
9. Yn hanesyddol, roedd gorchmynion cyfeirio yn cael eu rheoli gan reolwyr achosion nad oeddent wedi'u hyfforddi mewn gwaith cymdeithasol. Er bod y staff hyn wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant mewnol nid oeddent i gyd wedi eu hyfforddi'n ddigonol ar gyfer rhai o'r achosion risg uwch sydd bellach yn cael eu gwneud yn destun gorchmynion cyfeirio, ac mewn rhai achosion nid oedd ganddynt ddigon o ddealltwriaeth o faterion risg o niwed. Roeddem yn falch fod y GTI yn cynllunio y dylai achosion o'r fath gael eu rheoli gan staff wedi'u hyfforddi mewn gwaith cymdeithasol yn y dyfodol.
10. Roedd y GTI yn cynnal canolfan bresenoldeb iau sefydledig oedd wedi ei hintegreiddio'n llawn o fewn y GTI. Roedd y staff yn brofiadol ac roedd yn ymddangos bod y sesiynau gwaith grŵp yn fuddiol i'r plant a'r bobl ifanc oedd yn mynychu. Roedd sesiynau yn dechrau yn brydlon ac roedd cyswllt da a chyfnewid gwybodaeth rhwng y ganolfan, rheolwyr achos y GTI a rhieni/gofalwyr. Adroddodd y ganolfan, er nad oedd 30% o'r atgyfeiriadau yn mynychu, fod 80% o'r rhai a ddechreuai yn cwblhau eu rhaglen.
11. Penderfynai rheolwr y ganolfan bresenoldeb iau ar y rhaglen o weithgareddau a oedd ar gael, a gallai rheolwyr ddewis y sesiynau hynny oedd eu hangen fesul achos. Roedd y ganolfan yn cynnal sesiynau grŵp ar iechyd rhywiol, llythrennedd ariannol, troseddau â

chyllyll, a chamddefnyddio sylweddau. Roedd yn cael ei staffio gan grŵp o weithwyr profiadol.

Enghraifft o arfer nodedig

Yng nghofnodion y plant a'r bobl ifanc oedd yn mynychu'r ganolfan presenoldeb iau, roedd cofnodion cyswllt yn nodi teitl y modiwl ar gyfer y gwaith a wnaed yn y sesiwn yn glir, yn hytrach na nodyn oedd dim ond yn cadarnhau presenoldeb y plentyn neu berson ifanc. Roedd hyn yn ddefnyddiol i weithwyr eraill oedd yn ymwneud â'r achos, i gadarnhau pa waith oedd wedi cael ei wneud yn y sesiwn a'r hyn y gellid ei wneud yn ddefnyddiol fel gwaith dilynol a'i atgyfnerthu gyda nhw.

12. Roedd darpariaeth y ganolfan presenoldeb iau ar gael i holl achosion y GTI ac nid yn unig y rhai oedd yn destun YRO neu ISS. Adroddodd y ganolfan gyfraddau uchel o bresenoldeb ac o gwblhau'r sesiynau, ond nid oedd unrhyw ddadansoddiad o effeithiolrwydd yr ymyriad. Cafodd data ei anfon at y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid yn fisol, a mesurwyd canlyniadau o ran aildrosteddu, ond nid oedd y data wedi eu hagregu na'u defnyddio i werthuso ymarfer a gwella gwasanaethau. Yn unol â phryderon yr heddlu lleol, dywedodd rheolwyr y GTI fod mwy o angen i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond nid oedd yn glir beth oedd wedi cael ei wneud i ymdrin â hyn.
13. Roedd gwaith wedi ei raglennu gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi cyflawni troseddau rhywiol ar gael trwy Barnardos. Fel dewis arall priodol, roedd rhai rheolwyr achos wedi cael eu hyfforddi i gyflwyno'r gwaith hwn gan ddefnyddio deunyddiau tebyg i unigolion.

Enghraifft o arfer nodedig

Roedd y GTI yn cynnal amrywiaeth o sesiynau gwaith grŵp strwythuredig. Enw un oedd 'Pwy hoffai fod yn filiwnydd?', cynllun o dan arweiniad ymarferydd, a ddatblygwyd yn lleol, ac a gynlluniwyd i ddarparu addysg am gyffuriau ac alcohol a datblygu cymhelliant i wneud mwy i ymdrin â'r materion hyn. Roedd yn cynnwys un sesiwn awr yn seiliedig ar fformat y sioe gêm a gynlluniwyd i hyrwyddo ymgysylltu drwy ryngweithio gyda'r plant a phobl ifanc ar y materion hyn. Roedd yn darparu porth i wasanaethau cyffuriau ac alcohol eraill y gellid eu defnyddio yn barhaus.

14. Roedd y sesiynau gwaith grŵp wedi cael eu darparu ers peth amser ac roedd y GTI yn awr yn bwriadu eu cyflwyno i bob achos ar y Rhaglen ISS fel rhan o becyn o wasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc gan ganolbwyntio ar faterion cyffuriau ac alcohol. Ond nid oedd unrhyw broses werthuso benodol ar gyfer y sesiynau, er enghraifft, i fesur cyfran y rhai oedd yn mynychu yr oedd eu cymhelliant i ymwneud â materion camddefnyddio sylweddau wedi cynyddu, neu'r gyfran a aeth ymlaen i fanteisio ar wasanaethau parhaus.
15. Gwelsom ychydig o waith oedd yn ymwneud â dioddefwyr yn yr achosion a arolygwyd gennym, ac mewn rhai nid oedd digon o ystyriaeth o'r angen i amddiffyn y dioddefwr fel rhan o'r broses. Roedd tystiolaeth o gyswllt yn cael ei wneud gan swyddog dioddefwyr y GTI, ond ychydig o ymdrechion i ymgysylltu dioddefwyr â gwaith y GTI oedd yn llwyddiannus. Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid hefyd yn cael trafferth gyda chadw gwirfoddolwyr oedd yn cefnogi gwaith gyda dioddefwyr. Ychwanegwyd at yr anawsterau hyn gan y ffaith fod swydd y swyddog dioddefwyr wedi bod yn wag ers peth amser.
16. Roedd y GTI yn cynnal ystod o brosiectau gwneud iawn i'r gymuned yr oedd y plant a'r bobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt fel rhan o'u gorchmynion. Un enghraifft oedd prosiect amgylchedd cymunedol o dan arweiniad eglwysig i droi tir gwastraff yn ardd gymunedol. Roedd y GTI yn darparu dwy ran o dair o'r llafur, yn bennaf trwy oriau gwneud iawn.

Cawsom gyfarfod gydag un person ifanc yn y prosiect a oedd wedi cwblhau ei oriau gwneud iawn fel rhan o'i orchymyn ac a oedd yn parhau ar sail wirfoddol.

Enghraifft o arfer nodedig

Gweithiodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gydag ystod dda o asiantaethau partner er mwyn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer dilyniant. Roedd yn cynnwys ysgolion, darparwyr dysgu yn y gwaith, colegau allweddol, darparwyr dysgu arbenigol a chyflogwyr. Roedd staff yn cysylltu'n dda â'r darparwyr hyn i helpu plant a phobl ifanc i bontio'n effeithiol i Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth. Roedd staff yn defnyddio cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael cyfleoedd blasu cyn ymrwymo i lwybr dilyniant penodol.

17. Ymatebai gweithiwr addysg y GTI yn effeithiol i geisiadau am ymyrraeth gynnar i gefnogi disgyblion ysgol. Ond nid oedd unrhyw systemau effeithiol ar waith i fonitro lefel y llwyth gwaith hwn na'i effaith ar lwyth achosion statudol gwaith y gweithwyr addysg. Nid oedd staff yn glir ynghylch cynlluniau wrth gefn a fyddai'n dod i fodolaeth os oedd y gweithiwr addysg ar gyfnod o absenoldeb.
18. Gwelsom enghreifftiau da o ddysgwyr yn cael eu cyfeirio at asiantaethau partner a allai helpu i wella eu llythrennedd. Ond nid oedd digon o werthuso effaith neu effeithiolrwydd yr atgyfeiriadau hyn. Nid oedd unrhyw systemau ar waith i fesur pa mor dda yr oedd dysgwyr yn datblygu sgiliau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith (megis gweithio mewn tîm, dilyn cyfarwyddyd a chadw amser), neu i fesur effaith ymyriadau ar blant a phobl ifanc oedd yn datblygu neu yn gwella ymddygiad a sgiliau sy'n lleihau aildroseddu.
19. Roedd y rheolwr achos a'r gweithiwr cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd gyda Phlant oedd yn Derbyn Gofal a hefyd yn destun goruchwyliaeth y GTI ac roedd hyn yn rhoi mynediad i'r GTI i ystod ehangach o ymyriadau drwy'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafwyd enghreifftiau da o staff y GTI a gweithwyr cymdeithasol yn y tîm Plant sy'n Derbyn Gofal yn cydweithio i wella'r ymwneud â phlant a phobl ifanc, fel drwy gydlynw apwyntiadau. Roedd y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i helpu plant a phobl ifanc i ddeall a gwerthfawrogi'r manteision posibl o gael mynediad at wasanaethau perthnasol, megis llefy, iechyd neu addysg, o ran eu cefnogi i aros yn ddiogel a hefyd yn nhermau cynyddu'r tebygolrwydd y byddent yn cwblhau eu dedfryd yn llwyddiannus.
20. Roedd proses glir i alluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at asesiad iechyd cynhwysfawr a gwasanaethau iechyd dilynol yn ôl yr angen. Roedd y sesiynau asesu iechyd cyffredinol yn cael eu cyflwyno gan weithiwr iechyd y GTI gan ddefnyddio Fframwaith yr Offeryn Asesu Iechyd Cynhwysfawr wedi'i addasu, er mwyn cefnogi rheolwyr achos wrth ymgymryd ag asesiad cychwynnol cywir o faterion iechyd.
21. Roedd tîm iechyd y GTI yn adolygu pob atgyfeiriad ar y cyd i benderfynu pa weithiwr oedd orau i arwain o ran diwallu anghenion yr unigolyn. Roedd rhai ymyriadau iechyd yn cael eu darparu yn fewnol, fel iechyd rhywiol, cyffuriau ac addysg alcohol. Roedd gwasanaethau iechyd eraill yn cael eu defnyddio yn ôl y gofyn trwy ddarpariaeth y GIG. Teimlai gweithiwr iechyd y GTI fod trefniadau da ar gyfer cyfnewid gwybodaeth briodol am faterion iechyd gyda staff eraill y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd cysylltiadau da i atgyfeirio at wasanaethau allanol lle roedd angen, ac eithrio ar gyfer CAMHS a oedd yn wendid difrifol.
22. Roedd sesiynau strwythuredig i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn cael eu cyflwyno naill ai gan y gweithiwr camddefnyddio sylweddau, neu gan reolwyr achos, gyda'i

chymorth a'i harweiniad hi os oedd angen. Roedd y gweithiwr iechyd yn nyrs gymwysedig, ac yn cyflwyno gwaith oedd yn ymwneud ag iechyd corfforol a rhywiol. Roedd ei chefnidir proffesiynol yn ei galluogi i ddarparu rhywfaint o gymorth ac arweiniad mewn perthynas â phroblemau iechyd meddwl yn absenoldeb ymarferydd iechyd meddwl o fewn tîm y GTI.

Enghraifft o arfer nodedig

Tra roedd yn y ddalfa gwnaed atgyfeiriad i seicolegydd fforensig weithio gyda pherson ifanc mewn perthynas â thrais yn y cartref y bu'n dyst iddo fel plentyn. Parhaodd yr un gweithiwr i weithio gydag ef ar ôl iddo gael ei ryddhau. Roedd cofnodion achos yn dangos tystiolaeth o gydweithio da rhwng y seicolegydd fforensig a'r rheolwr achos. Pan oedd y person ifanc yn mynd yn nerfus am y pwnc y byddai'n ei drafod gyda'r seicolegydd, roedd y rheolwr achos yn bresennol yn y sesiwn i roi cymorth ychwanegol.

23. Roedd nifer o gynlluniau mewn perthynas â gofal iechyd meddwl, ond nid oedd y rhain bob amser yn cael eu dogfennu'n gynhwysfawr o fewn y cofnodion achos a arolygwyd gennym ni. Roedd yn amlwg y byddai rhai pobl ifanc a'u teuluoedd wedi elwa yn sylweddol o ymyriad fel 'therapi teulu'. Er bod ymarferwyr yn gwneud eu gorau i gefnogi teuluoedd nid oedd ganddynt ddigon o amser na'r arbenigedd i ymgymryd â rhaglen therapi strwythuredig.

Atodiad 1 - Cefndir yr arolygiad

Trefniadau arolygu

Mae rhaglen yr Arolygiad ar y Cyd Llawn (FJI) yn arolygu gwaith troseddwr ifanc, mewn achosion statudol yn y gymuned ac yn y ddalfa yn bennaf, mewn nifer fach o ardaloedd awdurdodau lleol bob blwyddyn.

Mae mwyafrif y Timau Troseddau Ieuentid a ddewisir ar gyfer yr arolygiadau hyn yn rhai y mae eu perfformiad - yn seiliedig ar gyfraddau aildroseddu, Dangosyddion Canlyniadau Cyfiawnder Ieuentid Cenedlaethol ac a gefnogir gan wybodaeth arall, fel arolygiadau diweddar - yn peri pryder sylweddol. O bryd i'w gilydd, rydym hefyd yn cynnwys ardaloedd sy'n perfformio'n dda i sefydlu meincnod o arfer da.

Prif ddiben y System Cyfiawnder Ieuentid yw lleihau troseddu. Dyma brif thema'r arolygiad. Y themâu craidd eraill yw amddiffyn y cyhoedd, amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc, sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni a llywodraethu a phartneriaethau.

Meini Prawf

Mae copi o'r meini prawf arolygu ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf EM:

<http://www.justiceinspectores.gov.uk/hmiprobation/about-our-inspections/youth-inspection-programmes/inspecting-youth-offending-work/full-joint-inspection/>

Methodoleg

Mae Timau Troseddau Ieuentid yn cael gwybod tua 11 diwrnod gwaith cyn i'r arolygiad ddigwydd.

Cafodd gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ei wneud ar yr wythnosau oedd yn dechrau ar:

30 Tachwedd, 2105 a 14 Rhagfyr, 2015.

Yn yr wythnos gyntaf o waith maes buom yn edrych ar sampl gynrychioliadol o 35 o achosion unigol hyd at 12 mis oed, gyda rhai yn gyfredol, ac eraill wedi eu terfynu. Roedd y sampl yn cynnwys nifer o'r rhai sydd yn risg uchel o niwed i eraill, rhai sy'n arbennig o agored i niwed, yn ferched ifanc, neu yn blant a phobl ifanc du ac o leiafrifoedd ethnig. Cafodd achosion eu hasesu gan dîm o staff arolygu. Buont yn archwilio'r rhain lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl gyda rheolwyr achos, a wahoddwyd i drafod eu gwaith yn fanwl, egluro eu ffordd o feddwl a nodi tystiolaeth ategol yn y cofnod.

Fe wnaethom hefyd dderbyn copïau o ddogfennau lleol perthnasol.

Yn ystod yr wythnos yn y canol, cafodd y data o'r arolygiadau achos ei gasglu ynghyd a datblygwyd darlun am ansawdd gwaith y GTI.

Ail wythnos y gwaith maes yw elfen ar y cyd yr arolygiad. Ymunwyd ag Arolygiaeth Prawf EM gan gydweithwyr o arolygwyr o'r heddlu, iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Buom yn archwilio trywyddau ymholi a ymddangosodd o'r arolygiadau achos. Cafodd elfennau arweinyddiaeth, rheoli a phartneriaeth yr arolygiad eu hasesu, gyda ffocws penodol ar leihau troseddu.

Buom hefyd yn casglu barn pobl eraill, gan gynnwys rheolwyr strategol, staff a defnyddwyr gwasanaethau, plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr, a buom yn arsylwi ar y gwaith oedd yn digwydd. Ymgysylltwyd â defnyddwyr gwasanaeth ar ein rhan gan User Voice.

Ar ddiwedd ail wythnos y gwaith maes cyflwynwyd ein canfyddiadau i reolwyr strategol lleol, tim rheoli'r GTI, staff y GTI a phartion eraill â diddordeb.

Dull sgorio

Mae manylion am sut y mae ein barnau arolygu yn cael eu ffurfio ar gael ar ein gwefan.

<http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-inspections/youth-inspection-programmes/inspecting-youth-offending-work/full-joint-inspection/>

Trefniadau cyhoeddi

Anfonir adroddiad drafft at y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar gyfer sylwadau dair wythnos ar ôl yr arolygiad, a bydd yn cael ei gyhoeddi tua chwe wythnos yn ddiweddarach. Yn ogystal, mae copi yn mynd at y Gweinidogion perthnasol, arolygiaethau eraill, Grŵp Polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae copïau ar gael i'r wasg ac yn cael eu rhoi ar ein gwefan.

Mae adroddiadau'r Arolygiadau ar y Cyd Llawn yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae rhagor o fanylion am sut mae'r arolygiadau hyn yn cael eu cynnal ar gael ar ein gwefan yn y ddogfen '*Framework for FJI Inspection Programme*' yn:

<http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-inspections/youth-inspection-programmes/inspecting-youth-offending-work/full-joint-inspection/>

Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer

Gellir cael gwybodaeth am rôl Arolygiaeth Prawf EM a'n Cod Ymarfer ni ar ein gwefan:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Atodiad 2

Cydnabyddiaethau

Arolygydd Arweiniol	Steve Woodgate, <i>Arolygiaeth Prawf EM</i>
Dirprwy Arolygydd Arweiniol	Yvette Howson, <i>Arolygiaeth Prawf EM</i>
Tîm Arolygu	<p>Jo Dowling, <i>Arolygiaeth Prawf EM</i></p> <p>Keith Humphreys, <i>Arolygiaeth Prawf EM</i></p> <p>Iolo Madoc-Jones, <i>Arolygiaeth Prawf EM</i></p> <p>Joe Simpson, <i>Arolygiaeth Prawf EM</i></p> <p>Bobbie Jones, <i>Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru</i></p> <p>Alun Connick, <i>Estyn</i></p> <p>John Powell, <i>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru</i></p> <p>Ian Elliott, <i>Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM</i></p> <p>Donald Williams, <i>Swyddog Cysylltu â Defnyddwyr, User Voice</i></p>
Gwasanaethau Cymorth Prawf AEM	<p>Adam Harvey, <i>Swyddog Gwasanaethau Cymorth</i></p> <p>Pippa Bennett, <i>Rheolwr Gwasanaethau Cymorth</i></p> <p>Oliver Kenton, <i>Swyddog Ymchwil</i></p> <p>Alex Pentecost, <i>Rheolwr Cyfathrebu</i></p>
Prif Arolygwyr Cynorthwyol (Cyfiawnder Ieuenctid)	<p>Helen Mercer, <i>Arolygiaeth Prawf EM</i></p> <p>Alan MacDonald, <i>Arolygiaeth Prawf EM</i></p>